

Adolygiad o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru



Collaboration by design

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Adolygu'r Llenyddiaeth
3. Canlyniadau Holiadur yr Arolwg
4. Gweithdy Pennu Cwmpas y Materion
5. Astudiaethau Achos
6. Crynodeb o'r Canfyddiadau
7. Argymhellion

1. Cyflwyniad

1.1 Y Comisiwn

Comisiynwyd Powell Dobson Urbanists gydag Ysgol Cynllunio a Daearyddiaeth Prifysgol Caerdydd a Keith Bright Consultants i astudio effeithiolrwydd Datganiadau Dylunio a Mynediad (Datganiadau) yng Nghymru. Pwrpas y prosiect hwn oedd casglu tystiolaeth gredadwy i weld a yw Datganiadau'n cyfrannu at well dylunio wrth ddatblygu yng Nghymru, ac os felly, sut.

Ym mrieff yr ymchwil, rhestrwyd nifer o faterion hysbys, neu dybiedig, y byddai angen eu harchwilio. Gellir categorio'r rhain fel a ganlyn:

Darparu: sut mae'r dogfennau'n cael eu cynhyrchu, sut y maent yn cael eu dehongli a'u defnyddio a pha fath o ddylanwad y maent yn ei gael ar brosesau dylunio a chanlyniadau datblygu?

Cymhlethdod: sut mae Datganiadau'n cael eu dehongli gan bobl sy'n eu paratoi ac yn eu darllen, a hefyd a ydynt yn creu oedi yn y broses sicrhau caniatâd cynllunio ynteu'n cyfrannu at effeithlonrwydd y broses honno?

Dyblygu: A oes unrhyw agweddau eraill ar reoleiddio datblygu sy'n ceisio sicrhau'r un amcanion â'r Datganiadau Dylunio a Mynediad, yn enwedig felly Ran M o'r Rheoliadau Adeiladau ynglŷn â mynediad, a'r asesiadau sy'n ofynnol ar gyfer BREEAM neu'r Cod Cartrefi Cynaliadwy yng nghyswllt meini prawf cynaliadwyedd mwy penodol?

1.2 Pwrpas yr adroddiad

Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o ddatganiadau dylunio a mynediad sy'n edrych ar yr elfennau sydd wedi bod yn effeithiol yn ogystal ag ar y meysydd hynny lle nad ydynt yn gwneud cystal ag y rhagwelwyd neu y dymunwyd. Felly, mae'r astudiaeth wedi cwmpasu maes ehangach na

dim ond edrych ar y dylanwad a gaiff Datganiadau ar wella dylunio ac fe gyflwynir y casgliadau hyn yn yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad yn sôn am ganfyddiadau pob elfen o'r gwaith ymchwil, gan gynnwys adolygu'r llenyddiaeth, holiadur, gweithdy a nifer o astudiaethau achos. Wrth ymateb i'r canfyddiadau hyn, mae tîm y prosiect wedi datblygu set o argymhellion sy'n cynnig newid sut y defnyddir y Datganiadau er mwyn sicrhau bod y gofyniad hwn yn y broses gynllunio'n eglurach, yn fwy effeithiol ac yn llai o faich.

2. Y Datganiad Dylunio a Mynediad: Adolygu'r Llenyddiaeth, y Canllawiau a'r Polisiau

2.1 Cyflwyniad

Mae ymchwil o wahanol ffynonellau sydd wedi'i gyhoeddi'n help inni ddeall arwyddocâd y Datganiad Dylunio a Mynediad (Datganiad). Mae llawer o lenyddiaeth ar gael ynghylch dylunio a'r system gynllunio – sy'n coleddu egwyddorion dylunio cynhwysol – ac sy'n cynnig cyd-destun pwysig ar gyfer astudiaethau eraill sy'n canolbwyntio'n benodol ar y Datganiad. Mae canllawiau o wahanol ffynonellau ar gael ar gyfer ymarferwyr sy'n ymwneud â pharatoi Datganiad ac sy'n ymhelaethu ar yr hyn sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth. Mae effeithiolrwydd y Datganiad hefyd wedi bod yn ystyriaeth wrth gynnal adolygiadau ehangach o reoli datblygu yng Nghymru a Lloegr. Mae cyfeiriadau at y rhain i'w gweld yn Atodiad A.

Trefnir yr adolygiad hwn yn adrannau fel a ganlyn:

- Meini prawf dylunio a'r system gynllunio
- Dylunio cynhwysol
- Rheoli dylunio yn y system gynllunio
- Gofynion y Datganiad Dylunio a Mynediad yng Nghymru
- Rôl a swyddogaeth y Datganiad Dylunio a Mynediad
- Arferion da a chanllawiau cysylltiedig
- Ymchwil sy'n gwerthuso defnyddio'r Datganiad Dylunio a Mynediad yn Lloegr
- Ymchwil sy'n gwerthuso defnyddio'r Datganiad Dylunio a Mynediad yng Nghymru
- Argymhellion ynghylch newidiadau i'r Datganiad Dylunio a Mynediad
- Casgliadau

2.2 Meini prawf dylunio a'r system gynllunio

Meini prawf dylunio cyffredinol

Sefydlwyd yr ymrwymiad i ystyried dylunio'n fater perthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio yng Nghymru a Lloegr yn Nodyn 1 Canllawiau Polisi Cynllunio 1992 (Adran yr Amgylchedd, 1992). Mae Carmona (1996) yn trafod safbwyntiau cynharach gweithwyr proffesiynol a'r llywodraeth yn y maes hwn. Roedd y safbwyntiau hyn ynglŷn â rôl cynllunwyr wrth iddynt geisio dylanwadu ar ddyluniad datblygiadau wedi'u hen sefydlu ac wedi tueddu i fynd i wahanol gyfeiriadau. Mae'n nodi'r consensws sydd wedi datblygu'n raddol y dylai cynllunwyr wybod a phoeni am ddylunio trefol, yn ogystal ag am faterion sy'n ymwneud ag arddull bensaerniol neu ymddangosiad gweledol yn unig. Ar ôl sefydlu'r Comisiwn Pensaernïaeth a'r Amgylchedd Adeiledig (CABE), ymddangosodd lluo o ddogfennau polisi a chanllawiau'n amlinellu sut y gellid defnyddio'r system gynllunio i ddylanwadu ar ganlyniadau dylunio. O blith y rhain, sefydlodd By Design (CABE / Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, 2000) amcanion cychwynnol sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol o ran ar sut y dylid barnu ansawdd dylunio. Fe drafodwyd yr agweddau ar ffurf datblygiad y gellid eu defnyddio i fesur ansawdd y dylunio. Mae Punter (Punter, 1990; Punter a Carmona, 1997) yn dangos y cysylltiad rhwng y ffordd normatif hon o feddwl am ystod amrywiol o bynciau a materion a gwaith y prif awduron ym maes dylunio trefol a gyhoeddwyd ers yr 1960au.

Mae'r amcanion ar gyfer mesur ansawdd dylunio a sefydlwyd mewn dogfennau cynharach yn cael eu hadleisio heddiw yn fersiynau cyfredol Polisi Cynllunio Cymru (Llywodraeth Cymru, 2012) a Nodyn Cyngor Technegol 12 (Lywodraeth Cynulliad Cymru, 2009), lle mae amcanion dylunio da'n cael eu cyflwyno o safbwynt Cymreig. Mae'r dogfennau hyn yn dweud bod dylunio'n cynnwys yr holl gydberthnasau rhwng elfennau'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig. Bydd dylunio da yn help i sicrhau datblygu cynaliadwy, ond, er mwyn iddo wneud hynny, rhaid iddo goleddu nid dim ond ystyriaethau ynghylch estheteg, gan ganolbwyntio'n gan amlaf ar olwg pethau, ond hefyd rhaid iddo ystyried agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y datblygiad, gan

gynnwys sut y caiff adeiladau eu codi, eu rhoi ar waith a'u rheoli, yn ogystal â'r berthynas rhwng cynlluniau a'u hamgylchedd. Nodir, neu efallai, fe obeithir, bod dylunio da yn nod i bawb sy'n ymwneud â'r broses ddatblygu. (Llywodraeth Cymru 2012, t. 59).

Mae TAN 12 yn glir iawn y bydd cynlluniau sydd wedi'u dylunio'n dda wedi'u seilio ar ddadansoddi'r cyd-destun yn drwyadl ac y bydd y gwaith dylunio'n ymateb yn briodol i faterion megis mynediad, cymeriad, diogelwch cymunedol, cynaliadwyedd amgylcheddol a symudiad. Dyma'r termau sy'n sail i unrhyw drafodaeth ynglŷn ag ansawdd dylunio mewn Datganiad, ni waeth am natur cynllun na'i leoliad.

Meini prawf dylunio a datblygu tai

Ceir meini prawf mwy penodol ar gyfer datblygiadau tai. Mae'r meini prawf hyn yn codi yn sgil trafodaethau yn y Deyrnas Unedig ynghylch ansawdd datblygiadau preswyl a ddarperir gan ddiwydiant sy'n tueddu i adeiladu tai ar raddfa fawr (Carmona, 2001). Datblygodd CABE feini prawf Adeiladu ar gyfer Bywyd. Mae'r rhain wedi sefydlu fframwaith ar gyfer barnu rhagoriaethau cynlluniau preswyl (CABE, 2005a, 2008a; Building for Life Partnership, 2012). Yng Nghymru comisiynodd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW) gyhoeddi Model Design Guide for Wales: Residential Development (Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ac LDA Design, 2005). Mae'r canllawiau hyn yn pwysleisio y dylai cynlluniau preswyl roi sylw i'r dreftadaeth naturiol, crynoder (yn groes i'r sylw i ddwysedd yn Lloegr), hygyrchedd a rhwyddineb symud, ddarllenadwyedd, cymeriad a chyd-destun, parhad ac amgáu, y parth cyhoeddus, amrywioldeb ac amrywiaeth, y gallu i ymaddasu ac effeithlonrwydd adnoddau. Mae rhai awdurdodau wedi ailysgrifennu ac ail-ddarlunio'r canllawiau hyn er mwyn iddynt gydweddu â'u hamgylchiadau lleol. Wedyn, ysgrifennodd Comisiwn Dylunio Cymru ganllawiau hwylus i gynghorwyr ynglŷn â dylunio cynlluniau preswyl. Crynhowyd y materion y dylid rhoi sylw iddynt mewn datblygiadau preswyl i gynnwys cyd-destun a chymeriad, symudiad, y parth cyhoeddus, y ffurf adeiledig a deunyddiau a

manylion. (Comisiwn Dylunio Cymru, dim dyddiad). Mae'r canllawiau hyn ar gyfer adeiladau preswyl dangos sut mae'r iaith a'r meini prawf sy'n cael eu defnyddio i gyflwyno'r achos ar gyfer barnu rhagoriaethau cynlluniau preswyl yng Nghymru yn amrywio. Maent hefyd yn dangos yr ystod eang o faterion posibl yr ystyrir eu bod er budd y cyhoedd yng nghyswllt dylunio datblygiadau.

Meini prawf dylunio a datblygiadau gan ddeiliaid tai

At hynny, a chan adlewyrchu eu pwysigrwydd i'r broses gynllunio, comisiynodd POSW hefyd ganllawiau cenedlaethol sef *Design Guide for Householder Development (Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, 2005)* i ddarparu cyngor dylunio ar gyfer ceisiadau bychain neu geisiadau gan ddeiliaid tai. Yn groes i'r dull *seiliedig ar egwyddorion* sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i gynlluniau mwy o faint ac sydd â goblygiadau ar gyfer dylunio trefol, trefnir y canllawiau hyn ar sail themâu, gan roi cyngor ynghylch mathau o ddatblygiadau cyffredin (gan gynnwys cyngor ynghylch cynlluniau nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer efallai): estyniadau ac ystafelloedd haul, garejys a thai allan, ffenestri dormer a goleuadau to, trin ffiniau, plannu, darparu ar gyfer mynediad a pharcio, deciau a balconiau, effeithlonrwydd adnoddau ac atal troseddu. Targedir y canllawiau at bobl nad oes ganddynt fawr o sgiliau dylunio. Cydnabyddir yn aml bod llawer o geisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno gan ymgeiswyr nad ydynt wedi cael dim hyfforddiant dylunio penodol.

Dylunio a'r amgylchedd hanesyddol

O ran cymeriad, mae Cadw wedi datblygu methodoleg benodol er mwyn deall hunaniaeth ac ymdeimlad o le'n lleol, gyda'r nod o helpu i reoli newid mewn lleoliadau hanesyddol. Mae methodolegau o'r fath yn sail i asesiadau cymeriad mewn ardaloedd cadwraeth yng Nghymru. Mae'r astudiaethau'n edrych ar sut y mynegir hanes tref yn ei chynllun a'i thopograffeg, mewn ardaloedd â photensial archeolegol, ac o ran agweddau penodol ar ei chymeriad

pensaernïol (Cadw, 2009). Gan amlaf, bydd gwerthusiadau ardaloedd cadwraeth sydd wedi'i seilio ar ddulliau fel hyn yn sail i'r syniad am gymeriad a ddefnyddir i farnu addasrwydd datblygiadau mewn ardaloedd cadwraeth dynodedig.

2.3 Dylunio cynhwysol

Mae Polisi Cynllunio Cymru (2012, argraffiad 5) yn dweud ym mharagraff 4.11.4 fod “dylunio da hefyd yn ddylunio cynhwysol”. Mae hefyd yn pwysleisio cyfres o egwyddorion dylunio cynhwysol. Mae'n dweud bod cynllunio cynhwysol:

- yn rhoi pobl wrth wraidd y broses ddylunio;
- yn cydnabod amrywiaeth a gwahaniaeth;
- yn cynnig dewis pan na all un ateb ar ei ben ei hun fod yn addas i bawb;
- yn darparu ar gyfer hyblygrwydd o ran defnydd;
- yn darparu adeiladau ac amgylcheddau sy'n gyfleus ac yn bleserus i bawb eu defnyddio.

Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan adrannau eraill o Bolisi Cynllunio Cymru, yn fwyaf penodol adran 3.4, sy'n ymwneud â sicrhau mynediad i bawb. Mae hyn yn pwysleisio bod gan awdurdodau cynllunio lleol ddyletswydd wrth roi caniatâd cynllunio i dynnu sylw ymgeiswyr at eu dyletswyddau statudol hwy eu hunain o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn dweud y dylai datblygwyr ystyried darparu mynediad i bawb, hyd yn oed lle nad oes gofyn paratoi Datganiad (paragraff 3.4.3). Sonnir hefyd bod archwiliadau mynediad yn ddefnyddiol wrth asesu hygyrchedd. Cyfeirir at ystyriaethau ychwanegol ynghylch hygyrchedd ac adeiladau hanesyddol hefyd (paragraff 3.4.5). Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru (2011) ynghylch paratoi Datganiad hefyd yn dadlau o blaid mabwysiadu dull dylunio cynhwysol, ac maent yn pwysleisio y dylai dylunio cynhwysol gael ei gydblythu â'r broses ddylunio ehangach.

Mae dogfen ddrafft a elwir yn Cynllunio ar gyfer Mynediad Cynhwysol yng Nghymru, Pecyn Canllawiau Arferion Da a baratowyd gan Anabledd Cymru ac Access Design Solutions yn dwyn ynghyd y materion a'r gwersi a ddeilliodd o brosiect 'Y Ffordd Ymlaen' i gynnig adnodd ar lein i gynllunwyr er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer mynediad cynhwysol ac ymgysylltu'n effeithiol â grwpiau mynediad ac anabledd. Mae'r pecyn yn help i ddefnyddwyr ddeall rhesymwaith dylunio cynhwysol, gan gynnwys y polisïau a'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i hyn. Mae polisïau cymdeithasol/cydraddoldeb (megis y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol) a pholisïau cynllunio (megis Polisi Cynllunio Cymru) yn 'gydgysylltiedig', ac felly mae'n glir, yng nghyswllt dylunio cynhwysol eu bod yn cyd-dynnu i'r un cyfeiriad. Dylai hyn alluogi gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid megis Grwpiau Mynediad i weld sut mae cynlluniau datblygu a rheoli datblygiadau'n gallu chwarae rhan wrth greu amgylchedd dirwystr sy'n galluogi pobl.

O ran y Datganiad, mae'r pecyn yn cynnig cyngor am yr hyn y gallai ei gynnwys, er enghraifft gweledigaeth ac amcanion ar gyfer sicrhau mynediad cynhwysol da, sut mae problemau mynediad wedi cael eu datrys wrth ddylunio'r cynllun, fel y'i dangosir yn lluniadau'r dyluniad, a pham y bydd rhai cynigion dylunio penodol yn cynnig mynediad cynhwysol hyd at safon dderbyniol fan leiaf er nad ydynt o reidrwydd yn cyrraedd safonau cydnabyddedig.

Mae polisïau cynllunio a'r canllawiau cysylltiedig o blaid ystyried mynediad yn fater canolog wrth ddylunio a gwerthuso pob cynnig datblygu. Eto i gyd, er bod datganiadau o'r fath yn nodwedd o bolisïau cynllunio, mae astudiaethau wedi awgrymu nad yw datblygwyr a dylunwyr bob tro'n ystyried amgylchedd cynhwysol (Imrie and Hall, 2001; Imrie, 2006; Imrie and Street, 2011). Mae agweddau at ddylunio a darparu amgylcheddau cynhwysol yn help i esbonio pam y cyflwynwyd Datganiadau Mynediad ym mis Mehefin 2007 a'u gwneud yn ofyniad ffurfiol ar gyfer llawer o geisiadau cynllunio yng Nghymru. O fis Mehefin 2009 ymlaen, cyflwynwyd Datganiadau Dylunio a Mynediad gyda'r bwriad o gyfuno ystyriaethau dylunio a mynediad yn un ddogfen. Dim ond ar gyfer rhai mathau penodol o newid defnydd bellach y mae angen

datganiadau 'mynediad yn unig' a hynny, lle, mewn gwirionedd, nad oes materion dylunio i'w hystyried (gweler y gofynion ar gyfer Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru isod).

Un o ddibenion datganiadau mynediad yw darparu fframwaith rheoleiddio i helpu datblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan fframweithiau eraill, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r canllawiau ymarferol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr yn egluro cefndir y dyletswyddau hyn. (Comisiwn Dylunio Cymru, 2011), yn ogystal â sut i'w helpu i'w gydymffurfio â'r rhain drwy baratoi Datganiad Dylunio a Mynediad. Mae'r fframwaith deddfwriaethol hwn - a'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau cysylltiedig sydd gan gyrrff cyhoeddus, datblygwyr, ac eraill - yn bwysig o ran atgyfnerthu pwysigrwydd ystyriaethau ynghylch mynediad mewn Datganiad. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod datblygwyr yn gyndyn o roi unrhyw statws sylweddol i egwyddorion dylunio cynhwysol yn eu cynigion datblygu (Imrie, 2006). Felly, gellid disgwyl y byddai Datganiad Dylunio a Mynediad yn chwarae rhan bwysig yn hyrwyddo egwyddorion dylunio cynhwysol lle y byddent fel arall efallai'n cael eu hesgeuluso wrth ddylunio cynnig.

2.4 Rheoli Dylunio yn y System Gynllunio

Gall y system gynllunio yng Nghymru ddelio â materion dylunio drwy ddefnyddio nifer o arfau a gweithdrefnau polisi a chanllawiau. Cyflwynir y rhain yn TAN 12. Mae'r arfau a'r gweithdrefnau hyn yn amrywio ychydig ac wedi hen fwrw gwreiddiau ledled y Deyrnas Unedig. Maent yn cyfuno'r hyn y byddwn ni'n ei alw'n hierarchaeth rheoli dylunio. Un rhan o'r hierarchaeth hon yw Datganiadau Dylunio a Mynediad, a hynny ar y raddfa fwyaf manwl a'r fwyaf safle-penodol. Ar lefel strategol, mae'n bosibl rheoli neu dywys dyluniadau drwy ddefnyddio polisiau mewn cynlluniau datblygu (Punter a Carmona, 1996; Punter et al. 1996; Punter a Carmona, 1997; Carmona et al. 2002; Carmona 2003; CABE 2005b), neu drwy strategaethau dylunio ar gyfer ardal arwyddocaol megis canol tref neu ddinas (Biddulph a Punter, 1999; Evans, 1999). Gellid paratoi

canllawiau dylunio thematig (e.e. preswyl neu flaen siop) ar gyfer pob math o ddatblygiad o fath penodol, ym mha leoliad bynnag y bydd hwnnw. (Carmona, 1998, 1999; Rudlin, 1999; Carmona, 2001). Mae'r canllawiau ar gyfer adeiladau preswyl a drafodir uchod yn dod o fewn y categori hwn. Gellid paratoi uwchgynlluniau a chodau dylunio cysylltiedig neu friffiau datblygu ar gyfer safleoedd datblygu penodol (Cowan, 2002; Bell, 2005; CABE, 2008b; Carmona, 2009; CABE, Dim dyddiad). Dylid paratoi arfarniadau ardaloedd cadwraeth ar gyfer ardaloedd dynodedig (English Heritage, 2006; Cadw, 2009). Defnyddir prosesau trafod cyn-ymgeisio i gynnig cyngor ymatebol i ddatblygwyr a dylunwyr cyn iddynt gyflwyno cais cynllunio. Gellid defnyddio prosesau adolygu dylunio, megis y rheini y mae Comisiwn Dylunio Cymru yn eu cynnig i wella cynlluniau wrth iddynt ddatblygu o'u cychwyn hyd at baratoi'r dyluniad manwl (Punter, 2006, 2008). Bydd awdurdod cynllunio sy'n ymdrechu'n rhagweithiol i reoli ansawdd dylunio datblygiad yn mabwysiadu'r arfau hyn sydd ar gael iddynt, ar sail yr hyn y byddant yn ei weld yn addas neu'n angenrheidiol, gan gynnwys awgrymu y gallai rhai cynlluniau fod yn destun adolygiad dylunio.

Mae polisiau dylunio mewn cynlluniau datblygu'n tueddu i fod yn gymharol generig ond maent yn sail i'r broses gynllunio statudol ac fe allant gyfeirio at fathau eraill o ddogfennau. Mae gofynion eraill megis canllawiau cynllunio atodol yn rhai anstatudol, ond fe allant fod yn fwy manwl a bod yn ystyriaeth berthnasol os ydynt wedi bod yn destun ymgynghori cyhoeddus ac wedi cael eu cymeradwyo gan bwyllgor cynllunio. Yn groes i'r holl arfau uchod, arf adweithiol yw'r Datganiad. Mae hyn yn golygu, yn hytrach na'i fod wedi'i seilio ar farn glir ynghylch yr hyn a allai fod yn angenrheidiol o safbwynt awdurdod cynllunio, bod y Datganiad yn cael ei baratoi gan y datblygwr neu'r dylunydd, a'i fod yn rhywbeth y mae'r awdurdod cynllunio'n ymateb iddo fel y gwelo'n dda.

Mae'r llenyddiaeth am y berthynas rhwng cynllunio ac ansawdd datblygiad yn aml wedi gwella datblygiadau'n gyffredinol, ac mae'n aml yn pwysleisio cynlluniau sy'n esiampl dda er mwyn codi disgwyliadau lleol. Bydd y dogfennau hyn yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd cleientiaid da, penseiri, cynllunwyr a chynghorwyr o

ran sicrhau ansawdd dyluniad a datblygiad. Un o gyfyngiadau sylfaenol, strwythurol systemau cynllunio'n gyffredinol, fodd bynnag, yw mai'r unig beth y maent yn ei wneud yw cymeradwyo datblygiadau sy'n ddigonol. Mae hyn yn golygu y bydd datblygwyr o bosibl yn bodloni ar ddylunio a datblygu o'r ansawdd isaf sy'n dderbyniol er mwyn cadw costau'n isel. Mae'n gŵyn gyffredin heddiw bod llawer o gynllunwyr yn aml yn bobl sydd â chymwysterau a chefnidir ym maes gwyddor gymdeithasol ac nad oes ganddynt sgiliau dylunio penodol. Mae'r rhain yn ei chael hi'n anodd barnu rhagoriaethau dylunio cynlluniau'n gyson ar draws yr amrywiaeth o feini prawf posibl, gan droi'n aml at normau neu safonau sy'n berthnasol i ystod gyfyng o faterion. (Higgins a Forsyth, 2006). Anelir yr un feirniadaeth hefyd at gynghorwyr a chymdogion sy'n seilio'u barn ar chwaeth leyg, gan wrthod yn ddiymdroi unrhyw beth sy'n edrych yn anghyfarwydd. (Hubbard, 1994; Hubbard, 1995). Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi ceisio goresgyn rhai o'r problemau a'r diffygion hyn yn ei gyhoeddiadau, drwy gyfeirio at gynlluniau sy'n esiampl dda ar ei wefan, a thrwy hyfforddi cynllunwyr a chynghorwyr ynghylch materion dylunio.

2.5 Gofynion y Datganiad Dylunio a Mynediad yng Nghymru

Mae'r is-ddeddfwriaeth yn rhestru'r gofynion ar gyfer datganiadau dylunio a mynediad yn Rhan 2 Erthygl 7 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Mae'r ddogfen hon yn gwneud y canlynol:

- Mae'n gosod y gofyniad ei bod yn rhaid cyflwyno datganiad dylunio a mynediad gyda chais am ganiatâd cynllunio;
- Mae'n nodi categorïau penodol o geisiadau am ganiatâd cynllunio lle nad oes gofyn cyflwyno datganiad dylunio a mynediad;
- Mae'n nodi categorïau datblygu lle mae gofyn cyflwyno datganiad mynediad yn hytrach na datganiad dylunio a mynediad;

- Mae'n nodi rôl datganiadau dylunio a mynediad o ran esbonio sut mae egwyddorion a chysyniadau dylunio ac ystyriaethau ynghylch mynediad wedi'u rhoi ar waith neu wedi'u hystyried;
- Mae'n sefydlu pa agweddau penodol ar ddatblygiad y mae'n rhaid eu hystyried mewn perthynas â dylunio (er enghraifft, cynaliadwyedd amgylcheddol, cymeriad ac ati);
- Mae'n sefydlu pa faterion penodol ynghylch mynediad y mae'n rhaid eu hesbonio ar gyfer datblygiad (er enghraifft, sut mae polisïau sy'n berthnasol i fynediad yn y cynllun datblygu wedi cael eu hystyried);
- Mae'n diffinio termau penodol at ddibenion yr erthygl, gan gynnwys cymeriad a chyd-destun.

Mae'r Gorchymyn yn arwyddocaol am ei fod yn pennu'r gofynion dilysu ar gyfer cofrestru cais cynllunio, ond mae canllawiau a chynghor TAN 12 yn cynnig deunydd ehangach gyda'r bwriad o gynorthwyo pobl i baratoi datganiadau dylunio a mynediad effeithiol.

Er bod y Datganiad yn ofyniad statudol, nid yw'n rhan o gais cynllunio nac o ganiatâd cynllunio, oni chyfeirir at ryw agwedd benodol o'i gynnwys mewn amod cynllunio. Mae'n ofynnol paratoi datganiad ar gyfer llawer math o ddatblygiad, ac eithrio gwaith peiriannu neu fwyngloddio, datblygu tŷ annedd sy'n bodoli eisoes gan ddeiliad tŷ neu ddatblygiad o fewn ei gwrttil, a newidiadau yn nefnydd tir neu adeiladau oni fyddai hynny'n golygu bod angen i gyflogai gael mynediad, neu ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Nid oes gofyn paratoi Datganiad ar gyfer ceisiadau yng nghyswllt materion a gadwyd yn ôl, er bod canllawiau TAN 12 yn dweud y dylid cyflwyno datganiad cynnydd gyda chais am faterion a gadwyd yn ôl ynghylch newidiadau sy'n digwydd ar ôl cyflwyno'r cais cynllunio amlinell gwreiddiol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).

Mae'r gofynion yn dweud hefyd ei bod yn rhaid i Ddatganiad esbonio cysyniadau ac egwyddorion sy'n ymwneud â (*fan leiaf*) "mynediad, cymeriad (*gan gynnwys maint, cynllun, graddfa, golwg a thirlunio*), diogelwch cymunedol, cynaliadwyedd amgylcheddol, symudiad i'r datblygiad, oddi yno ac o'i fewn"...neu ar gyfer cais am ganiatâd

adeilad rhestredig rhaid i'r Datganiad “*esbonio'r cysyniadau a'r egwyddorion mewn perthynas â (eto fan leiaf) mynediad (gwaith allanol yn unig), golwg, cynaliadwyedd amgylcheddol, cynllun a graddfa.*” (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009, tt. 66-67).

Mae'r iaith syml sy'n diffinio'r materion y dylai'r Datganiad eu hystyried, ac sy'n ymddangos ar ffurf penawdau yn TAN 12, yn cael ei chymhlethu oherwydd y duedd i amrywio'r eirfa mewn cyhoeddiadau eraill sy'n canolbwyntio ar faterion cenedlaethol. Mae natur datblygiadau neu leoliadau hefyd mor amrywiol nes nad yw bob tro'n amlwg i gleientiaid, dylunwyr neu gynllunwyr bod y termau hyn yn addas na bod unrhyw gydbwysedd rhyngddynt. Mae'n amlwg hefyd bod angen dehongli ystyron y testunau hyn o'u cymharu â nodweddion dyluniad yn ei leoliad. Efallai fod rhai o'r nodweddion hyn yn gymharol syml, megis dangos tu blaen adeilad neu raddfa cynllun mewn perthynas â'i leoliad. Mae eraill o bosibl yn fwy agored i'w dehongli a'u trafod.

2.6 Rôl a Swyddogaeth Datganiadau Dylunio a Mynediad

Un o elfennau canolog syniad y Datganiad yw mai cyfrwng cyfathrebu ydyw. Mae'n rhoi *cyfle* i ddatblygwyr a dylunwyr esbonio a ydynt wedi delio â'r materion perthnasol a *sut*. Y ddadl yw y dylai dylunwyr da weld hyn yn beth hawdd ei wneud oherwydd byddant wedi datblygu ffordd o feddwl sy'n rhoi pwys ar ddylunio a rhesymwaith clir yn sail i'w cynllun, ond efallai y bydd angen i eraill wella er mwyn cynnig esboniad sydd o'r safon ofynnol ac yn sgil hynny ddyluniad neu ddatblygiad o ansawdd. Byddwn yn dychwelyd at y mater hwn yn ddiweddarach yn yr astudiaeth hon oherwydd inni weld mai dyma un o brif gryfderau'r Datganiad ar gyfer rhai mathau o ddatblygu.

Mae cyngor Cyngor Dylunio Cymru am y Datganiad hefyd yn trafod sut y gallai Datganiad gynnwys ...y *gwaith y dylid ei gwblhau cyn gwneud cais cynllunio...* (2011) ac mae TAN 12 yn dweud y dylai fod yn ddogfen fyw sy'n esblygu ac yn newid ochr yn ochr â fersiynau'r cynllun (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009, t. 17). Mae

rhywfaint o ddryswch felly ynghylch ai esboniad o broses yw Datganiad ac/ynteu a yw'n gyfiawnhad dros ganlyniad y dyluniad.

Ar wahân i'r ffaith ei fod yn cael ei gyflwyno fel cyfle i gyfathrebu, mae'r cyngor ynghylch rolau penodol y Datganiad yn awgrymu bod agenda gymhleth ar waith, yn enwedig ac ystyried yr amrywiaeth o wahanol fathau o ddatblygiadau posibl y gallant fod yn berthnasol iddynt. Mae gofyn cael datganiad ar gyfer estyniad trefol mawr neu ar gyfer rhywbeth mor fach â pheiriant twll yn y wal. Er bod y cwmpas hwn yn enfawr, mae TAN 12 yn dweud eu bod:

- “yn sicrhau bod y datblygwr yn gallu darparu tystiolaeth i gyfiawnhau cynigion yn nhermau polisi cynllunio (cenedlaethol a lleol) ac yn nhermau'r ffactorau a restrir;
- egluro sut mae amcanion dylunio da wedi'u cymhwyso, neu os nad ydynt wedi'u cymhwyso, y rhesymau dros hynny
- cyfleu'n glir y weledigaeth a'r egwyddorion a sefydlwyd ar gyfer y cynllun
- dangos i egwyddorion cynaliadwyedd gael eu hystyried a'u defnyddio i oleuo dyluniad y datblygiad
- dangos sut mae'r datblygwr wedi ystyried galwadau sy'n gwrthdaro ac i ba raddau y mae'r ystyriaethau hyn wedi dylanwadu ar y datblygiad arfaethedig
- sicrhau bod y datblygwr wedi ystyried materion dylunio yn foddhaol (fel y rhai a ystyrir yn adran 5 yn Nodyn Cyngor Technegol 12) yn gynnar yn y broses ddylunio ac y tynnir sylw at broblemau posibl cyn i waith dylunio manwl ddechrau
- dangos sut y dylanwadwyd ar benderfyniadau dylunio drwy ail-arfarnu'r dyluniad.”

Mae manteision posibl Datganiadau'n eang hefyd ac mae hyn yn ehangu eu pwrpas eto fyth. Maent yn gallu:

- “goleuo gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf trwy'r camau cyn ymgeisio/ymgeisio nes rhoddir y datblygiad ar waith ar y safle

- rhoi cyfle i'r ymgeisydd ac i ddatblygwyr a dylunwyr ddangos sut maent wedi ymateb i'r angen am adeiladau cynaliadwy;
- helpu pawb sy'n asesu'r cais i ddeall y rhesymeg sy'n sail i'r datblygiad arfaethedig, gan eu cynorthwyo yn eu trafodaethau ac wrth iddynt wneud penderfyniadau;
- galluogi cymunedau lleol, grwpiau mynediad, grwpiau amwynder a rhanddeilaid eraill i ddeall y rhesymeg sy'n sail i'r datblygiad arfaethedig ac felly i roi sylwadau effeithiol am gynigion
- arwain at wella ansawdd, cynaliadwyedd a chynhwysiant y datblygiad
- gwneud ymgeiswyr yn fwy ymwybodol o'r materion y dylid eu hystyried."

Syniad syml sydd wrth wraidd syniad y Datganiad ond mae'r swyddogaethau a'r pwrpasau posibl a gyhoeddwyd ar eu cyfer yn cymhlethu pethau. Mae'n amlwg bod y swyddogaethau a'r pwrpasau hyn i bob golwg yn anghymesur â chynigion symlach a chynigion ar raddfa lai, megis cynnig ar gyfer peiriant twll yn y wal. Efallai y bydd yr wybodaeth safonol a ddarperir fel rhan o'r cais cynllunio, a lluniadau'r cynllun, yn ddigon i esbonio'r cynnig. Ar y llaw arall, efallai y bydd yn fwy addas esbonio'n fwy trwyadl ddyluniad a datblygiad cynlluniau arwyddocaol sy'n debygol o gael cryn ddylanwad cyhoeddus. Mae'n werth nodi, er gwaethaf y datganiadau pwrpas hyn, bod y canllawiau'n glir ac yn dweud y dylai Datganiad fod yn gryno ac yn gymesur â maint y datblygiad a gynigir. Mae lle i ddehongli hyn mewn sawl ffordd.

2.7 Datganiadau Dylunio a Mynediad - Arferion da a chanllawiau cysylltiedig

Yn yr adran flaenorol, pwysleisiwyd rôl a swyddogaeth Datganiadau Dylunio a Mynediad gan ddefnyddio cyhoeddiadau ffurfiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru neu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ategir y deunydd hwn gan ystod o ddogfennau eraill sy'n

cynnig canllawiau defnyddiol ynghylch paratoi neu asesu Datganiadau. Mae'r deunydd hwn yn cael ei gyhoeddi gan amrywiaeth o sefydliadau, o grwpiau proffesiynol a chyrrff sy'n cynghori i elusennau a grwpiau budd. Mae'r tîm ymchwil wedi adolygu'r prif ffynonellau hyn o ganllawiau a chyngor ymarferol. Mae'r adran hon sy'n adolygu'r llenyddiaeth yn gwerthuso'r canllawiau hyn. Rhoddir manylion y prif ddogfennau yn Atodiad 2. Mae'r adolygiad hwn hefyd wedi asesu'r canllawiau ychwanegol a ddarparwyd gan awdurdodau cynllunio lleol unigol yng Nghymru. Rhoddir crynodeb o ganllawiau pob awdurdod cynllunio lleol yn Atodiad 3.

Wrth adolygu **cyhoeddiadau arferion da a chanllawiau cysylltiedig**, nodwyd y canlynol:

- Mae amrywiaeth o wahanol gyhoeddiadau ar gael ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Mae rhai o'r rhain yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor i'r sawl sy'n paratoi Datganiad (Comisiwn Dylunio Cymru, 2011). Mae cyhoeddiadau eraill yn canolbwyntio ar esbonio'u cefndir i randdeiliaid yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn (Cymorth Cynllunio Cymru, 2011). Mae rhai dogfennau yn cynnwys gwybodaeth benodol i'r rheini sy'n paratoi Datganiad a'r rheini sy'n eu hadolygu (CABE, 2007).
- Mae dogfennau sy'n rhestru arferion da yn pwysleisio gwerth a manteision paratoi Datganiadau Dylunio a Mynediad. Yn aml, pwysleisir yn y dogfennau hyn bod y Datganiad yn ddogfen 'fyw' sy'n berthnasol i sawl cam o'r broses ddylunio a'r cais cynllunio. Pwysleisir hefyd werth ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth baratoi Datganiad (Cymorth Cynllunio Cymru, 2011; CABE, 2007).
- Mae'r canllawiau'n amrywio o ran sut mae'n mynd i'r afael â materion dylunio ac â materion mynediad. Mae rhai dogfennau'n cyfeirio at y ddau hyn fel petaent yn ddau beth ar wahân ond sydd eto'n berthnasol i'w gilydd, fel elfennau o'r Datganiad (CABE, 2007). Mewn dogfennau eraill, mae dylunio a mynediad yn cael eu hystyried yn faterion sydd wedi'u cydblethu mwy â'i gilydd (Comisiwn Dylunio Cymru 2011).

Mae rhywfaint o gyhoeddiadau defnyddiol hefyd sy'n mynd i'r afael ag agweddau penodol ar faterion dylunio a mynediad, yn fwyaf nodedig y rheini sy'n ymwneud ag atal troseddu. (Diogelu Drwy Ddylunio, 2010).

- Mae rhai o'r dogfennau ymarfer yn cynnwys enghreifftiau defnyddiol i helpu pobl i baratoi Datganiad (Y Comisiwn Hawliau Anabledd, 2003). Byddai'r rhain yn ychwanegiadau buddiol a da at gyhoeddiadau eraill lle na chaiff esiamplau o arferion da eu darparu (CABE, 2007).
- Mae rhywfaint o'r canllawiau arferion da sydd ar gael yn ddefnyddiol ond yn hen, ac felly nid ydynt yn cyfeirio at newidiadau a diwygiadau mwy diweddar i'r gofynion ar gyfer Datganiadau Dylunio a Mynediad. Mae cyfeiriadau mewn rhai dogfennau ymarfer at ddatganiadau mynediad a datganiadau dylunio ar wahân ac mae'r ffordd y defnyddir y termau hyn yn anghyson. Yn yr un modd, bydd rhywfaint o'r canllawiau cynnar yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion anabledd, yn hytrach nag ar y gyfres ehangach o faterion sy'n berthnasol i ystod amrywiol o grwpiau defnyddwyr y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi sylw iddynt (Comisiwn Hawliau Anabledd, 2003; Grŵp Dylunio Trefol, 2008). Mae cyhoeddiadau eraill mwy diweddar wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu newidiadau yn y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi (Comisiwn Dylunio Cymru, 2011).
- Mae canllawiau da iawn ar gael sy'n rhoi sylw penodol i Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru (Comisiwn Dylunio Cymru, 2011). Ynghyd â TAN 12, y canllawiau hyn yw'r brif ffynhonnell gyngor ynglŷn â defnyddio Datganiadau Dylunio a Mynediad sydd ar gael ar hyn o bryd.

Wrth adolygu'r wybodaeth a ddarperir ar wefannau awdurdodau cynllunio lleol Cymru, nodwyd y canlynol hefyd:

- Mae'r wybodaeth sydd ar wefannau rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn hen, ac fe allai hyn arwain at ddryswch.
- Mae'r canllawiau a ddarperir gan rai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn hen ac maent yn berthnasol i ofynion Datganiadau

Mynediad neu ganllawiau interim sydd wedi'u disodli erbyn hyn.

- Nid yw'r gofyniad ynghylch cyflwyno datganiad gyda chais cynllunio bob tro'n glir yn yr wybodaeth a ddarperir ar wefannau.
- Mae cryn amrywiaeth o ran faint o wybodaeth a chanllawiau ac o ran y math o wybodaeth a ddarperir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol. Gallai'r diffyg cysondeb hwn achosi dryswch ac fe all awgrymu bod amrywiadau o ran gofynion dilysu ceisiadau gwahanol awdurdodau.
- Mae'n amheus a oes angen i bob Awdurdod Cynllunio Lleol ddarparu canllawiau am Ddatganiadau, oherwydd bod canllawiau ar gael ar lefel genedlaethol. Lle y darperir dogfennau canllaw ar lefel leol, nid ydynt fel rheol yn berthnasol i'r cyd-destun, i bolisiâu neu amodau lleol, byddant yn aml yn crynhoi neu'n amrywio'r hyn a ddarperir yn TAN 12. Felly, maent yn darparu haen arall o wybodaeth a all mewn gwirionedd wneud pethau'n fwy dryslyd yn hytrach nag yn fwy eglur.

2.8 Ymchwil sy'n gwerthuso defnydd ac effeithiolrwydd Datganiadau yn Lloegr

Mae dau brif gyhoeddiad yn cyflwyno rhywfaint o waith empeiraidd ar sut mae Datganiadau'n cael eu defnyddio yn Lloegr (Y Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio, 2008; Paterson, 2011). Daeth y Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio â chynrychiolwyr at ei gilydd o faes rheoli datblygiadau, dylunio trefol, rheoli mynediad ac adeiladu o 16 o awdurdodau cynllunio i gwblhau adolygiad o'r weithdrefn. Roedd hefyd yn cynnwys aelodau etholedig yn yr ymchwil ac felly'n adlewyrchu safbwynt y sector cyhoeddus at Ddatganiadau. Cwblhawyd y gwaith hwn yn gymharol gynnar ym mywyd y Datganiad ac fe'i seiliwyd ar gynnwys y sawl fu'n cymryd rhan mewn trafodaethau ar batrwm grŵp ffocws. Astudiodd Paterson (2011) sut yr oedd Datganiadau'n cael eu defnyddio mewn 13 o awdurdodau

lleol yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, gan gyfwrdd â swyddogion cynllunio awdurdodau lleol a datblygwyr neu asiantau ym mhob un o'r awdurdodau lleol hynny.

Drwy'r gwaith hwn, adroddwyd ynghylch ystod o faterion a chasgliadau sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon ac maent wedi cael eu trefnu ar sail themâu:

Y Gofynion ar gyfer Datganiad Dylunio a Mynediad

- Roedd Datganiadau'n cael eu hystyried yn *rhwystr arall* i ddatblygwyr, a oedd yn golygu costau ac oedi ychwanegol adeg cam dilysu cais cynllunio. Yn gyffredinol, roedd gwaith gyda datblygwyr a'u penseiri'n datgelu agweddau negyddol at y gofyniad i baratoi Datganiad Dylunio a Mynediad
- Adroddodd swyddogion cynllunio fod datblygwyr ar raddfa fwy wedi ymateb yn well i ofynion paratoi Datganiad nag yr oedd datblygwyr ar raddfa lai.
- Roedd gofyn cael Datganiad ar gyfer gormod o fân geisiadau, ac roedd angen newid y trothwy ar gyfer gorfod eu paratoi.
- Roedd gorgyffwrdd rhwng gofynion y Datganiad a gofynion adroddiadau eraill a gyflwynid gyda chais cynllunio, ac yn benodol yn y meysydd hynny sy'n dod o dan reoliadau adeiladu a chynlluniau rheoli mynediad a baratoir gan swyddogion mynediad.
- Roedd swyddogion cynllunio awdurdodau lleol yn croesawu ystyried dyluniad a mynediad mewn un datganiad unigol, yn anad dim oherwydd bod gofyn rhoi sylw'n benodol i faterion dylunio.

Y cam cyn-ymgeisio

- Gwelwyd bod modd osgoi llawer o'r anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â chynllun pan fydd Datganiad yn esblygu ochr yn ochr â thrafodaethau cyn-ymgeisio.

Dilysu ac Ansawdd

- Roedd anghysonderau yn y ffordd yr oedd awdurdodau cynllunio lleol yn mynd ati i ddilysu ceisiadau cynllunio. Hefyd, roedd diffyg consensws ynghylch a ddylid dilysu ceisiadau cynllunio petai Datganiad yn cael ei ystyried yn annigonol.
- Roedd llawer o Ddatganiadau'n aml brin yn ddigonol o'u cymharu â'r disgwyliadau. Roedd angen i ymarferwyr ddeall yn well beth y dylid ei gynnwys a beth y dylid ei hepgor.
- Roedd angen rhagor o eglurder ynghylch materion mynediad, ac yn enwedig ynghylch lefel yr wybodaeth sydd ei hangen yn ystod y cam cynllunio ac wedyn yn ystod y cam adeiladu.
- Roedd llawer o ymgeiswyr yn dewis esbonio'u cynllun yn y Datganiad, yn hytrach nag esbonio proses esblygu'r cynllun.

Cefnogi penderfyniadau

- Roedd Datganiadau yn arbennig o effeithiol mewn awdurdodau lleol lle'r oedd yr awdurdodau wedi ymrwmo i ddylunio da mewn polisïau ac o ran adnoddau, a lle'r oedd ganddynt staff â sgiliau arbenigol ym maes dylunio trefol a chadwraeth.
- Yn groes i hynny, roedd paratoi a dehongli Datganiadau'n dioddef o feddylfryd 'blychau ticio' pan fyddent yn cael eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol nad oeddent wedi'u hyfforddi'n dda. Roedd datblygwyr yn poeni a oedd gan awdurdodau cynllunio lleol staff â'r sgiliau dylunio angenrheidiol i ddeall materion dylunio'n llawn.
- Roedd Datganiadau'n ddefnyddiol i esbonio cynnig i bwyllgor cynllunio, ac yn benodol felly gynlluniau anghonfensiynol.
- Gallai amodau caniatadau amlinell sicrhau bod ceisiadau ar gyfer materion a gadwyd yn ôl yn dilyn yr egwyddorion a sefydlwyd mewn Datganiad, er mwyn rhoi sylw i bryderon bod ceisiadau dilynol yn anwybyddu ymrwymïadau blaenorol.

Sicrhau dylunio da

- Roedd dylunio da'n dibynnu'n bennaf ar faint o flaenoriaeth ac ymrwymiad y byddai'r awdurdod a'r ymgeisydd yn eu rhoi iddo. Fodd bynnag, mae llawer o swyddogion cynllunio'n credu bod Datganiadau wedi helpu i wella ansawdd dylunio cynigion, drwy dynnu sylw at faterion dylunio yn ystod y broses caniatâd cynllunio.

2.9 Ymchwil sy'n gwerthuso sut y defnyddir Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru a'u heffeithiolrwydd

Mae nifer fach o astudiaethau o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru hefyd sydd naill ai'n canolbwyntio'n benodol ar Ddatganiadau neu'n eu hystyried yn rhan o astudiaeth ehangach. Roedd yr astudiaeth gan GVA Grimley i Lywodraeth Cymru (2010) yn dweud mai Datganiadau oedd yr un rheswm mwyaf cyffredin dros benderfyniadau awdurdodau cynllunio lleol i wrthod dilysu ceisiadau cynllunio. Mewn grwpiau ffocws a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth, galwyd am wella'r canllawiau a gyhoeddiid gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys ynghylch Datganiadau. Aeth yr astudiaeth rhagddi i wneud argymhelliad penodol am Ddatganiadau. Roedd dwy elfen iddi, yn gyntaf, y dylid egluro cwmpas a chynnwys Datganiadau Dylunio a Mynediad; ac yn ail, y dylid ystyried llacio'r trothwy fel nad ydynt yn ofynnol ar gyfer pob math o ddatblygiad. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb iddo'n rhannol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr eglurhad ynglŷn â Datganiadau i awdurdodau cynllunio lleol, ond nid yw eto wedi ystyried llacio'r trothwy ar gyfer gorfod paratoi Datganiad, ac nid yw ychwaith wedi darparu canllawiau mwy hyblyg am fformat a chynnwys i adlewyrchu'r ffaith bod cynigion yn amrywio o ran eu graddfa.

Traethodau ymchwil myfyrwyr ôl-raddedig yn bennaf yw gweddill yr astudiaethau sy'n ymwneud â Datganiadau yng Nghymru. Roedd Lankshear (2011), er enghraifft, yn archwilio cyfres o 26 o Ddatganiadau a gyflwynwyd i dri awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru. Dangosodd yr ymchwil fod Datganiadau'n tueddu i ddilyn yn glos iawn yr elfennau dylunio a restrir yn TAN 12. Mynediad a

chymeriad oedd y nodweddion y rhoddwyd sylw iddynt gan mwyaf mewn Datganiadau ac wedyn, yn eu trefn, cynaliadwyedd amgylcheddol, symudiad a diogelwch cymunedol. Nid oedd y rhan fwyaf o'r Datganiadau a adolygwyd yn yr astudiaeth yn cynnwys unrhyw drafodaeth am esblygiad y cynllun mewn ymateb i ystyried y pum categori. O ran mynediad yn benodol, roedd yr astudiaeth yn casglu y gellid yn rhesymol amau bod y datganiadau a astudiwyd yn rhoi sylw arwynebol yn unig i'r syniad o ddylunio cynhwysol (Lankshear, 2011, t. 53). Yn yr un modd, nid oedd llawer o Ddatganiadau'n cyfeirio at ymgynghori fel rhan o broses paratoi'r Datganiad. Yn olaf, soniwyd yn yr astudiaeth am bryderon ynghylch cysondeb gofynion dilysu awdurdodau cynllunio lleol a defnyddio amodau i gydblethu'r Datganiad â'r caniatâd cynllunio. Roedd astudiaeth Pulley (2012) yn canolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio Datganiadau mewn apeliadau cynllunio. Roedd yr astudiaeth yn archwilio apeliadau a oedd wedi'u datgan yn annilys gan yr Arolygiaeth Gynllunio naill ai oherwydd nad oedd Datganiad yn ddigonol neu oherwydd nad oedd Datganiad wedi'i baratoi. Roedd hyn yn golygu 14 apêl, neu 2.7% o'r holl apeliadau yn 2010. Mewn pump o'r achosion, nid oedd Datganiad wedi'i ddarparu na chais wedi'i wneud am un er bod hynny'n ofyniad statudol ar gyfer y datblygiad yr oedd y cais amdano. Yn y naw achos a oedd yn weddill, penderfynwyd nad oedd y Datganiad yn cyflawni'r gofynion statudol. Roedd mwyafrif clir o'r rhain wedi cael eu cyflwyno gan asiant proffesiynol neu ymgynghorydd. Yn yr achosion hyn, rhoddwyd llythyr safonol i apelwyr yn gofyn iddynt gydymffurfio â'r rheoliadau, heb gynnig canllawiau am ddiffygion penodol y Datganiad a gyflwynwyd.

2.10 Argymhellion ar gyfer Newidiadau i Ddatganiadau

Mae'r llenyddiaeth am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad hefyd yn cyfeirio at gyfres o gynigion ar gyfer newid. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- *Defnyddio Datganiadau Dylunio a Mynediad yn Rhagweithiol. Galwodd y Gwasanaeth Cyngori am Gynllunio (2008) ar i*

awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu rôl fwy rhagweithiol wrth ddefnyddio Datganiadau. Roedd yn cynghori swyddogion cynllunio i'w gweld eu hunain yn gyfranogwyr mwy brwd ym mhroses paratoi'r Datganiadau yn hytrach na'u bod ond yn eu derbyn neu'n eu hadolygu. Petai awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio Datganiadau'n rhagweithiol, byddai hynny'n gyson â datblygu rheoli datblygu. Yng Nghymru, roedd astudiaeth gynharach GVA Grimley (2010) yn amlwg yn osgoi awgrymu cynnwys Datganiadau yn rhan o drefn rheoli datblygu.

- *Gwella'r ddealltwriaeth o Ddatganiadau a chryfhau sgiliau dylunio.* Awgrymodd y Gwasanaeth Cynghori am Gynllunio (2008) fod angen i ddatblygwyr a chynllunwyr ddangos mwy o ymroddiad i sicrhau dylunio da, ac y byddai hyn yn golygu bod angen gwella arbenigedd dylunio awdurdodau cynllun lleol ac eraill (gweler hefyd Punter, 2010). Mae astudiaethau eraill wedi galw yn yr un modd am wella sgiliau dylunio (Paterson, 2011), neu am rannu arbenigedd dylunio rhwng mwy nag un awdurdod cynllunio lleol (GVA Grimley, 2010).
- *Gwella cysondeb prosesau dilysu Datganiadau.* Roedd astudiaeth GVA Grimley (2010, paragraff 7.24) yn argymhell cael rhestr genedlaethol safonol o'r gofynion ar gyfer dilysu a chofrestru ceisiadau cynllunio, a fyddai'n cynnwys gofynion ynghylch Datganiadau. Roedd yn awgrymu hefyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru erbyn hyn) sicrhau bod ei gofynion ar gyfer dilysu ceisiadau cynllunio'n glir ac yn ddiamwys. Nodwyd hefyd bod rhannu'r arferion gorau'n hybu gwelliannau o ran cysondeb ac ansawdd arferion dilysu awdurdodau cynllunio lleol.
- *Diwygio'r trothwyon ar gyfer datblygiadau y mae gofyn paratoi Datganiadau ar eu cyfer.* Roedd astudiaeth flaenorol GVA Grimley (2010) yn dadlau o blaid ystyried o ddifrif adolygu'r 'trothwyon' neu'r 'sbardunau' ar gyfer gorfod darparu Datganiad. Roedd ymateb y Llywodraeth i'r astudiaeth hon ac i'r ymgynghori wedyn i'w gweld yn 'Streamlining the planning application process: Ymgynghoriad, Ymateb y Llywodraeth' (Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Mehefin 2013).

Cynnig allweddol y bwriwyd ymlaen ag ef ar ôl yr ymgynghoriad oedd gosod trothwy uwch ar gyfer gorfod paratoi Datganiad, ar y sail bod esboniad mwy manwl o'r dull mewn gwirionedd yn ychwanegu gwerth. Mae'r trefniadau diwygiedig ar gyfer Datganiadau yn Lloegr bellach yn dweud nad oes ond yn rhaid eu darparu ar gyfer ceisiadau am ganiatâd cynllunio sy'n ddatblygiadau mawr (diffinnir y rhain isod), neu, lle bydd unrhyw ran o'r datblygiad mewn ardal ddynodedig. (diffinnir hynny isod hefyd), datblygiad sy'n cynnwys (i) darparu un tŷ annedd neu fwy nag un, neu (ii) darparu adeilad neu adeiladau lle mae gofod y llawr a grëir gan y datblygiad yn 100 metr sgwâr neu ragor.

Mae 'datblygiad mawr' yn dilyn y diffiniad a nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Lloegr) 2010, gan gynnwys cynigion ar gyfer 10 tŷ annedd neu ragor. (neu 0.5 ha oni wyddys nifer yr unedau); datblygiad sydd ag arwynebedd safle o 1 hectar neu ragor; 1,000 m. sg neu ragor. Yn ôl diffiniad y Gorchymyn, 'ardal ddynodedig' yw: (i) ardal gadwraeth; a (ii) eiddo sy'n ymddangos ar Restr Treftadaeth y Byd a gedwir o dan erthygl 11(2) o Gonfensiwn UNESCO yn 1972 Ynghylch Gwarchod Treftadaeth Ddiwylliannol a Chenedlaethol y Byd (Safle Treftadaeth y Byd).

Rhodddwyd y newidiadau hyn ar waith drwy Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Lloegr) 2013 a ddaeth i rym ar 26 Mehefin 2013.

Tybiwyd bod y newid hwn yn briodol ar ôl ymgynghori, gan fod y diffiniad o ddatblygiad mawr yn glir ac yn ddealedig, a'i bod yn bosibl deall ystyriaethau a goblygiadau dylunio a mynediad datblygiadau sydd o dan y trothwy hwn i raddau digonol heb fod angen Datganiad Dylunio a Mynediad. Mae'r cyfiawnhad yn dweud, hefyd, na fyddai dileu'r angen am Ddatganiad yn effeithio ar allu Awdurdod Cynllunio Lleol i gynnwys polisïau dylunio a mynediad yn ei gynllun a'u datblygu a'u defnyddio'n briodol wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio.

Elfen arall o'r newidiadau yn Lloegr oedd symleiddio'r gofynion o ran y cynnwys. Cododd hyn yn sgîl pryderon am

gymesuredd ac effeithiolrwydd. Yn Natganiad 2013, dilëwyd y gofyniad bod yn rhaid i Ddatganiad esbonio'r egwyddorion a'r cysyniadau dylunio a roddwyd ar waith yng nghyswllt: maint, cynllun, graddfa, tirlunio a golwg cynigion datblygu. Disodlir hyn gan ofyniad ehangach i esbonio'r egwyddorion a'r cysyniadau cynllunio sydd wedi'u rhoi ar waith yn y datblygiad.

Mae'r gofynion mynediad mewn Datganiad yr un fath o hyd ag yn DMO 2010. Fodd bynnag, mae'r angen i esbonio sut y bydd darpar ddefnyddwyr yn gallu cyrraedd y datblygiad o'r rhwydwaith trafndiaeth presennol, pam y dewiswyd y prif bwyntiau mynediad i'r safle a phatrwm y llwybrau mynediad iddo; a sut y caiff nodweddion sy'n sicrhau mynediad i'r datblygiad eu cynnal – wedi cael eu dileu. Mae'n bosibl bellach ymdrin â hyn o dan y gofyniad i esbonio'n fwy cyffredinol sut y rhoddwyd sylw i unrhyw faterion penodol a allai effeithio ar fynediad i'r datblygiad.

Roedd y newidiadau diweddar hefyd yn cynnwys symleiddio'r gofynion ynghylch cynnwys ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig sy'n dileu'r gofyniad bod yn rhaid i Ddatganiadau Dylunio a Mynediad esbonio'r egwyddorion a'r cysyniadau sydd wedi'u rhoi ar waith o ran graddfa, cynllun a golwg y gwaith sydd i'w wneud ar adeiladau rhestredig, ac mae hefyd yn dileu'r gofyniad ei bod yn rhaid i Ddatganiad Dylunio a Mynediad esbonio sut y cynhelir nodweddion sy'n sicrhau mynediad i'r adeilad. Rhoddwyd y newidiadau hyn ar waith drwy gyfrwng Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Diwygio) (Lloegr) 2013

- *Lleihau cwmpas a chynnwys Datganiadau.* Yn Lloegr, mae'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2013) ynglŷn â symleiddio prosesau cais cynllunio yn cynnig 'ymagwedd fwy cymesur' at Ddatganiadau (paragraff 32). Mae'r ymagwedd hon yn cynnig y dylid addasu gofynion Datganiad a dibynnu ar gymhlethdod neu symlrwydd y datblygiad arfaethedig. Ni fyddai gofyn cael cymaint o wybodaeth ac esboniad ar gyfer datblygiad ar raddfa lai a symlach ag y byddai ar gyfer cynnig mwy cywain, cymhleth neu fwy o faint. Mae'r ymgynghoriad yn nodi gofynion penodol

y gellid eu dileu fel rhan o ymagwedd fwy cymesur. Yng Nghymru, roedd Llythyr yn Egluro Polisi CL-03-10 a gyhoeddwyd ym mis Awst 2010 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn pwysleisio y dylai hyd a chymhlethdod Datganiad fod yn briodol i fath a maint y datblygiad a gynigir, gan ddyfynnu adrannau perthnasol TAN 12.

Ystyrir y cynigion hyn yn ddiweddarach yn y prosiect hwn wrth lunio argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.

2.11 Casgliadau wrth Adolygu'r Llenyddiaeth

Wrth adolygu'r llenyddiaeth, gwelwyd bod tystiolaeth o waith ehangach ar gael sy'n ein helpu i ddeall sut mae Datganiadau'n dylanwadu ar ganlyniadau dylunio yng Nghymru. Un arf yw'r Datganiad Dylunio a Mynediad i hybu datblygu sydd wedi'i gynllunio'n dda drwy'r system gynllunio, sydd â hierarchaeth polisi, canllawiau ac arferion da yn gefn iddi. Mae TAN 12 yng Nghymru yn gwneud gwaith da yn amlinellu'r materion sydd i'w hystyried a sut mae cyflawni hynny. Arf adweithiol yw'r Datganiadau, yn yr ystyr bod Awdurdodau Cynllunio yn dibynnu ar ymrwymiad y dylunwyr a'u cleientiaid i gynhyrchu dogfennau da. Er bod dibenion y Datganiad yn eang ac yn gymhleth, yn ôl yr amrywiaeth o ganllawiau sydd ar gael, eu prif rôl yn y broses gynllunio yw bod yn gyfrwng cyfathrebu, gan roi cyfle i ddylunydd esbonio'i waith mewn perthynas â'r canllawiau a thrwy ymateb i gyd-destun.

Yn gyffredinol, mae pobl o blaid Datganiadau. Mae cynllunwyr yn hoffi'r ffaith bod angen rhoi sylw i ddylunio a mynediad, a'u bod yn gyfrwng i ddatblygwr neu ddylunydd gyfleu i bobl eraill rinweddau eu cynllun o safbwynt dylunio a mynediad. Mae hyn yn arbennig o werthfawr yng nghyswllt datblygiadau mwy o faint neu ddatblygiadau ar safleoedd mewn lleoliadau sensitif.

Serch hynny, mae yna anawsterau ynghlwm wrth y Datganiadau, o ran yr hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni ac o ran sut maent yn gweithio'n ymarferol yn Lloegr. Mae'r polisi a'r canllawiau yng Nghymru yn dweud bod dylunio da yn ddylunio cynhwysol. Eto i gyd,


mae'n destun pryder nad yw ystyriaethau mynediad a chydaddoldeb bob tro'n nodwedd gref o ddylunio datblygiad. Yn Lloegr, gwelir tystiolaeth bod gofynion Datganiadau'n cael eu dehongli'n anghyson gan awdurdodau cynllunio lleol, bod sgiliau ac arbenigedd yn amrywio wrth baratoi Datganiadau ac o ran gallu pobl i'w dehongli, a phryder ynghylch y trothwyon ar gyfer gorfod cynnwys Datganiad gyda chais cynllunio. Yn gyffredinol, nid yw ansawdd y Datganiadau a gynhyrchwyd wedi cyflawni'r disgwyliadau, a hynny'n bennaf oherwydd na all ymgeiswyr ddeall sut y maent yn berthnasol i ddatblygiadau llai. I bob golwg, mae hyn yn tanseilio pwrpas ehangach cynlluniau lle mae materion dylunio'n fwy amlwg a lle mae angen eu hesbonio.

3. Atebion i'r Holiadur

Cynhaliwyd arolwg ymhlith y bobl sy'n defnyddio Datganiadau Dylunio a Mynediad i gasglu eu barn am effeithiolrwydd y dogfennau. Yn yr adran hon, cyflwynir crynodeb o'r cwestiynau a'r canfyddiadau. Dosbarthwyd yr holiadur i ystod eang o gyrff proffesiynol yng Nghymru yn ogystal ag i'r awdurdodau cynllunio lleol i gyd ac fe'i hysbysebwyd mewn cyhoeddiadau cenedlaethol. Cafwyd cyfanswm o 172 o ymatebion. Ni wnaeth pawb ateb pob cwestiwn ac felly mae'r ystadegau'n berthnasol i'r cwestiynau a atebwyd.

3.1 Profiad wrth ddefnyddio Datganiadau

Pan ofynnwyd i'r rhai a atebodd yr holiadur beth oedd eu rôl yn y broses gynllunio a datblygu, dywedodd 42% eu bod yn gynllunwyr awdurdodau lleol, 17% eu bod yn benseiri, 9% eu bod yn gynllunwyr yn y sector preifat ac 8% eu bod yn gweithio ym maes dylunio trefol. Roedd cynrychiolwyr hefyd o blith aelodau grwpiau mynediad a gweithwyr proffesiynol ac asiantau ar gyfer ceisiadau cynllunio. Mae mwyafrif y bobl hyn naill ai wedi cynhyrchu (42.5%) neu wedi defnyddio (61%) Datganiad. Mae 5% wedi'u comisiynu hefyd. Mae gan y rhan fwyaf o'r bobl hyn lawer o brofiad naill ai'n cynhyrchu neu'n dehongli Datganiadau, ac mae mwyafrif mawr wedi gwneud hyn ar 5 achlysur neu ragor.



3.2 Pwysigrwydd materion dylunio

Roedd un grŵp o gwestiynau'n gofyn i ymatebwyr ddweud pa faterion dylunio yn eu barn hwy oedd bwysicaf o blith y rhestr yn TAN 12: mynediad, cymeriad, diogelwch cymunedol, cynaliadwyedd amgylcheddol a symudiad. Dywedodd 85% o'r rheini a atebodd y cwestiwn y gallent roi'r pynciau hyn yn nhrefn eu blaenoriaeth. Yn y dewis cyntaf a roddwyd iddynt, roedd 61% yn meddwl mai cymeriad oedd bwysicaf a 23% yn meddwl mai mynediad oedd bwysicaf. Yn yr ail ddewis a roddwyd iddynt, rhoddwyd cynaliadwyedd amgylcheddol (37%) yn uwch na mynediad (25%) a symudiad (20%). Ac ystyried y cyfan gyda'i gilydd, a'u pwysoli yn ôl eu safle ym mhob un o'r 5 dewis sgorio, y farn oedd bod cymeriad (27%) fymryn yn bwysicach na mynediad (22%) a bod cynaliadwyedd amgylcheddol (21%), a symudiad yn gyffredinol yn sgorio'n is (18%)

a diogelwch cymunedol yn olaf (12%). Wrth edrych ar grwpiau penodol, gallwn weld eu bod yn poeni am y pethau sydd bwysicaf iddynt hwy. Credai 77% o'r penseiri mai cymeriad oedd y pwysicaf, a meddyliai 53% fod cynaliadwyedd amgylcheddol yn dod yn ail, roedd 39% o'r gweithwyr mynediad proffesiynol yn rhoi mynediad yn gyntaf, ac nid oedd 27% yn barod i roi'r materion yn eu trefn.

3.3 Paratoi Datganiad Dylunio a Mynediad

Yna, gofynnwyd grŵp o gwestiynau a oedd yn holi am farn pobl am broses paratoi Datganiad.

- Pan ofynnwyd a oes modd addasu Datganiadau'n rhwydd ar gyfer datblygiadau o bob ffurf a maint, dywedodd 70 nad oes a dywedodd 47 bod modd gwneud hynny.
- Pan ofynnwyd a yw paratoi Datganiad yn ychwanegu cost ddiangen at broses y cais cynllunio, dywedodd 75 ei fod a 48 nad yw. Dywedodd 66% o'r penseiri ei fod yn ychwanegu cost.
- Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn meddwl bod cynllun yn cael ei ddylunio ac wedyn bod rhywun arall yn paratoi Datganiad, dywedodd 90 eu bod a 23 nad oeddent. Dywedodd 69% o'r cynllunwyr eu bod yn meddwl hynny.
- Pan ofynnwyd a oes lleoliadau a mathau penodol o ddatblygu lle nad yw'r gofyniad i ddarparu Datganiad yn gwneud llawer o synnwyr, dywedodd 101 bod a 23 nad oes.

Mae'r atebion hyn i gyd yn awgrymu bod pobl sy'n defnyddio Datganiadau'n amheus ynghylch y gofynion cyffredinol a bod natur yr amheuaeth yn amrywio, a dibynnu ar eu maes proffesiynol.

- Pan ofynnwyd iddynt a ddylai cynlluniau a gynhyrchir gan benseiri cofrestredig gael eu heithrio rhag gorfod paratoi Datganiad, dywedodd 101 na ddylent a dywedodd 22 y **dylent**. Roedd 45% o'r penseiri'n hoffi'r syniad hwn ond nid oedd 75% yn ei hoffi.

- Pan ofynnwyd a ddylai cynlluniau a baratowyd gyda chymorth ymgynghorydd mynediad gael eu heithrio rhag gorfod paratoi Datganiad, dywedodd 97 na ddylent a dywedodd 20 y dylent.

Yn gyffredinol, roedd cytundeb na ddylai'r ffaith bod mathau penodol o weithwyr proffesiynol yn ymwneud â pharatoi dyluniad olygu nad oedd angen cyflwyno Datganiad.

- Pan ofynnwyd a yw'r ffordd y dehonglir y gofynion ar gyfer Datganiad yn amrywio rhwng awdurdodau cynllunio, dywedodd 93 ei bod a dywedodd 5 nad oedd.

Mae hyn yn dangos barn gref iawn bod anghysonderau mawr rhwng awdurdodau o ran sut y maent yn dehongli'r gofynion.

- Pan ofynnwyd a yw Datganiad gwael yn dystiolaeth o ddyluniad gwael, dywedodd 72 nad yw a dywedodd 48 ei fod. Roedd 64% o ddylunwyr trefol yn cytuno, ond nid oedd grwpiau eraill mor glir ynghylch hyn.

Mae hyn yn adlewyrchu'r farn ymhlith rhai nad yw'r berthynas hon rhwng ansawdd cynllun ac ansawdd Datganiad bob tro'n glir ac y gellir cael Datganiad gwael weithiau gyda chynllun da.

- Pan ofynnwyd a ddylid peidio â chofrestru cynllun â Datganiad gwael yn y broses gynllunio, dywedodd 78 na ddylid ei gofrestru a dywedodd 44 y dylid. Roedd 79% yn cytuno â hyn, 53% o'r cynllunwyr ond dim ond 34% o'r penseiri.

Mae'n ymddangos bod y ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â Datganiadau'n anghyson, gan fod gan rai ddisgwyliadau is cyn cofrestru cais, ond bydd eraill yn dychwelyd cais cynllunio os ydynt yn teimlo nad yw Datganiad yn ddigonol. Swyddogion dylunio awdurdodau lleol sy'n poeni fwyaf am hyn, oherwydd nhw sydd â'r diddordeb mwyaf yn yr agenda a gyflwynir mewn Datganiad.

3.4 Sylwadau unigol am broses paratoi Datganiad Dylunio a Mynediad

Treuliodd llawer o bobl amser yn ysgrifennu sylwadau am broses paratoi Datganiad. Rhoddir rhestr lawn o'r sylwadau a gafwyd yn yr adran hon yn Atodiad 4 ond isod, rhoddir y deg prif sylw o'u trefnu yn ôl pa mor aml y codwyd y pwyntiau hynny.

- Ymarfer ticio blychau yw'r Datganiadau'n aml.
- Mae rhai mathau o ddatblygu lle nad yw'n gwneud llawer o synnwyr gofyn am Ddatganiad: [mae'r rhestr a ganlyn wedi cael ei llunio drwy gyfuno nifer o ymatebion] estyniadau i dai, ceisiadau am arwyddion, ymestyn oriau agor siopau prydau parod, cysgodfeydd, is-orsafoedd trydan, paneli solar, dodrefn a ffitiadau allanol, ceisiadau i amrywio cyflwr, adeiladau amaethyddol, caniatadau ar gyfer adeiladau domestig sydd wedi'u rhestru, ceisiadau adran 73].
- Dylid amrywio gofynion y Datganiad a'u gwneud yn gymesur â'r math o ddatblygiad a gynigir a'i raddfa
- Maent yn aml yn ddogfennau torri a gludo
- Mae Datganiadau'n gymharol amherthnasol ar gyfer datblygiadau bach, ond yn arf defnyddiol ar gyfer rhai mawr.
- Mae'n amlwg iawn bod y rhan fwyaf helaeth o'r Datganiadau'n cael eu hysgrifennu ar ôl dylunio'r cynllun.
- Mae'r enghreifftiau gorau fel arfer wedi'u cyfyngu i leoliadau sensitif ... lle y gall Datganiadau fod o help i ddeall sut yr aethpwyd ati; serch hynny prin yw'r enghreifftiau hyn.
- Dylid gweld y Datganiad yn ffordd o werthu cynllun i aelodau lleyg pwyllgorau cynllunio, swyddogion cynllunio a phartion eraill sydd â diddordeb. Dylai felly fod yn ffordd o gyflwyno syniadau dylunio mewn ffordd syml, hwylus a chryno.
- Dylai Datganiad fod yn fyr ac i'r pwynt, gan esbonio'n gryno brif gyfyngiadau a chyfleoedd y safle a'i gyd-destun a sut mae'r dyluniad yn ymateb yn greadigol i'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd hyn.
- Nid yw'r rhan fwyaf o'r Datganiadau yr wyf fi wedi'u gweld yn esbonio sut mae'r datblygiad yn berthnasol i'w gyd-destun, ar ba raddfa bynnag y bo'r datblygiad. Maent yn aml wedi'i seilio ar destun a dyna'i gyd! ... Mae'n aml yn anodd dadlau y dylid gwella'r Datganiad ac ystyried y pwysau sydd ar Reolwyr Datblygu wrth eu gwaith.

3.5 Effaith Datganiadau Dylunio a Mynediad

Roedd y grŵp nesaf o gwestiynau'n ystyried effaith Datganiadau. Y consensws clir yw bod llawer o bobl yn rhoi gwerth arnynt. Mae nifer o bobl yn meddwl eu bod yn aneffeithiol ar hyn o bryd ac y dylid cael gwared â nhw. Mae consensws clir iawn na ddylai'r Datganiad gael ei ddefnyddio yn lle dylunwyr proffesiynol i farnu ynghylch rhagoriaethau dylunio cynlluniau. Mae 'na gytundeb rhesymol ynghylch gwerth y Datganiad fel cyfrwng cyfathrebu wrth helpu dylunwyr i esbonio'u cynllun, a'r syniad bod Datganiadau wedi annog pobl i roi mwy o sylw i bob mater sy'n ymwneud â dylunio ac felly eu bod hefyd wedi sicrhau gwell datblygiadau. Wedi dweud hyn, mae rhai'n meddwl hefyd nad yw materion mynediad yn cael sylw dyledus ar y lefel hon. Wedi pwysu a mesur, fodd bynnag, roedd llawer o bobl yn meddwl nad oedd cynghorwyr mewn gwirionedd yn rhoi gwerth ar y dogfennau nac ychwaith yn eu defnyddio, er bod y cyhoedd weithiau'n eu cael yn ddefnyddiol.

- Pan ofynnwyd iddynt ddweud a yw Datganiadau'n arf defnyddiol yn y broses ddylunio a chynllunio, atebodd 107 eu bod ac 13 nad ydynt. Dywedodd 85% o ddylunwyr trefol 72% o gynllunwyr a 58% o benseiri eu bod yn ddefnyddiol.

Mae hyn yn dangos bod cefnogaeth amlwg o blaid y gofyniad, ac mae'n ganfyddiad o bwys i'r ymchwil hwn.

- Pan ofynnwyd a yw Datganiadau'n helpu pobl i farnu ynghylch rhagoriaethau dyluniad yn ei gyd-destun, dywedodd 92 eu bod a dywedodd 27 nad oeddent.
- Pan ofynnwyd a oedd Datganiadau wedi helpu dylunwyr i esbonio'r penderfyniadau anodd sydd ynghlwm wrth ei gwaith, dywedodd 91 eu bod, a 24 nad oeddent.

Mae'r ymatebion hyn yn pwysleisio gwerth Datganiadau fel cyfrwng cyfathrebu.

- Pan ofynnwyd a yw Datganiad yn achosi oedi weithiau, hyd yn oed os yw'n ddatganiad da, wrth geisio sicrhau penderfyniad am gais cynllunio, dywedodd 56 nad oedd, a dywedodd 55 ei fod.

- Pan ofynnwyd a yw Datganiadau wedi helpu i sicrhau gwell dylunio wrth ddatblygu, dywedodd 72 eu bod, a 41 nad ydynt. Roedd 64% o ddylunwyr trefol, 51% o gynllunwyr a dim ond 28% o benseiri'n cytuno eu bod wedi helpu.
- Pan ofynnwyd onid yw Datganiadau wedi annog rhoi mwy o sylw i faterion mynediad mewn ceisiadau cynllunio, dywedodd 79 nad oeddent a 31 eu bod. Roedd 71% o ddylunwyr trefol, 67% o weithwyr proffesiynol neu grwpiau ym maes mynediad, 52% o benseiri a 50% o gynllunwyr yn cytuno nad oeddent wedi helpu.
- Pan ofynnwyd a oedd Datganiadau wedi gwella'r sylw i faterion dylunio eraill, dywedodd 69 eu bod a 43 nad oeddent. Roedd 71% o'r dylunwyr trefol yn cytuno, ond cymysg oedd ymateb y lleill.
- Pan ofynnwyd a yw Datganiadau'n help i werthu cynllun drwy waith graffeg trawiadol, dywedodd 72 o bobl eu bod, a 40 nad oeddent. Cymysg oedd barn y gwahanol grwpiau am hyn.
- Pan ofynnwyd iddynt farnu'r datganiad nad yw Datganiadau'n gwneud yn lle dylunydd proffesiynol o ran barnu rhagoriaethau dylunio cais cynllunio, dywedodd 100 eu bod yn cytuno ac 14 o bobl eu bod yn anghytuno. Roedd 93% o'r dylunwyr trefol, 76% o'r penseiri, a 69% o'r cynllunwyr yn cytuno â'r datganiad.
- Pan ofynnwyd a oedd Datganiadau o fudd i aelodau pwyllgorau, dywedodd 53 eu bod a 56 nad oeddent. Roedd yr ymatebion i hyn yn gymysg iawn.
- Pan ofynnwyd a oedd Datganiadau o fudd i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol, dywedodd 72 eu bod a 40 nad oeddent. Roedd 64% o'r dylunwyr trefol yn cytuno eu bod, ond roedd barn eraill yn fwy cymysg.
- Pan ofynnwyd a oedd Datganiadau'n annog ymgeiswyr a dylunwyr i feddwl y tu hwnt i'r gofynion dylunio a mynediad sylfaenol, dywedodd 70 eu bod a 43 nad oeddent. Roedd 72% o'r gweithwyr proffesiynol a'r grwpiau ym maes mynediad yn cytuno eu bod yn eu hannog i wneud hyn, roedd barn pobl eraill yn y grwpiau'n gymysg iawn.

- Pan ofynnwyd yn blaen a yw Datganiadau'n cael eu hystyried yn aneffeithiol ac a ddylid cael gwared â nhw, dywedodd 48 eu bod yn cytuno (15 yn cytuno'n llwyr, 33 yn cytuno'n rhannol) a dywedodd 69 eu bod yn anghytuno. Dywedodd 85% o'r dylunwyr trefol a 73% o'r gweithwyr proffesiynol a'r grwpiau ym maes mynediad eu bod yn anghytuno, ond roedd barn grwpiau eraill yn fwy cymysg, gyda 45% o'r penseiri'n cytuno a 34% yn anghytuno.

3.6 Sylwadau unigol am effaith y Datganiadau Dylunio a Mynediad


Treuliodd llawer o bobl amser hefyd yn ysgrifennu sylwadau am effaith Datganiadau sy'n rhoi golwg ychwanegol inni ar yr hyn y mae pobl yn meddwl eu bod wedi'i gyflawni. Isod, crynhoir y deg pwynt uchaf a godwyd, a rhoddir sylwadau ychwanegol yn Atodiad 4.

- Mae Datganiadau'n gyfrwng defnyddiol i esbonio cynlluniau i'r cyhoedd ac i aelodau cynghorau.
- Rwyf wedi'u cael nhw'n ddefnyddiol iawn ar gyfer datblygiadau mawr.
- Mae gofynion y Datganiadau'n golygu bod datblygwyr yn dal i ystyried dylunio yn flaenoriaeth.
- Mae proses y Datganiad yn iawn, ond mae ansawdd y Datganiad ei hun yn aml yn wael.
- Dylid cael gwared â Datganiadau ar gyfer mân gynlluniau.
- Mae gormod o Ddatganiadau gwael yn cael eu cyflwyno, a does dim gwerth iddynt yn y broses gynllunio.
- Dogfennau "torri a gludo" yw'r datganiadau'n aml ac felly maen nhw'n ddiystyr.
- Mae Datganiadau gwael gan amlaf yn cynnwys gormod o wybodaeth ddibwynt nad oes ganddi gysylltiad â dyluniad y datblygiad.

- Mae Datganiadau'n cael eu trin fel petaent yn ymarfer ticio blychau.
- Fe all Datganiadau greu argraff weledol drawiadol ac mae hyn yn gallu tynnu sylw'r darllenwyr oddi ar y sylwedd.

3.7 Canllawiau a Hyfforddi

Yn yr adran nesaf, ystyriwyd materion a oedd yn ymwneud â sgiliau, hyfforddi a gwerth canllawiau. Yn gyffredinol, roedd pobl yn teimlo bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gomisiynu, paratoi neu ddehongli Datganiad, a dibynnu ar eu rôl. Roedd 11% yn teimlo bod y canllawiau sydd ar gael am Ddatganiadau'n dda, credai 40% y gellid eu gwella, ac roedd 13% yn meddwl eu bod yn annigonol. Cyfeiriwyd at amrywiaeth o ffynonellau lle'r oedd canllawiau ar gael ac fe'u dangosir yn y graff. Mae'r rhan fwyaf yn cyfeirio at ddeunyddiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru neu gan Gomisiwn Dylunio Cymru. Mae llawer hefyd wedi gweld canllawiau CABE ac wedi defnyddio deunyddiau a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol.



3.8 Dewisiadau eraill yn lle Datganiadau Dylunio a Mynediad

Roedd yr adran nesaf yn edrych ar ddewisiadau eraill yn lle Datganiadau ac ar sut mae Datganiadau'n gorgyffwrdd â threfniadau rheoleiddio eraill.

- Pan ofynnwyd ai'r ffordd orau o ymdrin â gofynion mynediad cyfreithiol yw o dan Reoliadau Adeiladu, dywedodd 95 **ie** a dywedodd 18 **nage**.
- Pan ofynnwyd a ddylai'r Cod Cartrefi Cynaliadwy ddisodli'r Datganiadau fel sail i farnu rhai o ragoriaethau cynlluniau preswyl, dywedodd 33 **dylai** a dywedodd 72 **na ddylai**.

Dywedodd pob dylunydd trefol na ddylai, ond roedd y cynllunwyr a'r penseiri'n fwy cymysg eu barn.

- Pan ofynnwyd a ddylai asesiad BREEAM ddisodli Datganiad fel sail i farnu rhai adeiladau dibreswyl, dywedodd 34 **dylai** a dywedodd 74 **na ddylai**. Fel uchod, dywedodd pob dylunydd trefol na ddylai, ond roedd y cynllunwyr a'r penseiri'n fwy cymysg eu barn.

Roedd cryn gytundeb bod gofynion Datganiadau'n gorgyffwrdd â gofynion Rheoliadau Adeiladu yng nghyswllt gofynion mynediad cynlluniau. Y farn oedd bod trefniadau rheoleiddio eraill yn fwy penodol eu ffocws.

3.9 Sylwadau unigol am ddewisiadau eraill yn lle'r Datganiadau

Mae sylwadau unigol am y pwnc yn rhoi golwg ychwanegol inni ar y mater, a dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Efallai nad yw BREEAM a'r Cod Cartrefi Cynaliadwy'n addas iawn i farnu perfformiad amgylcheddol wrth addasu, newid, aildddefnyddio neu estyn adeiladau hanesyddol.
- Dylid ymdrin â mynediad (o ran rampiau, grisiau i mewn i dai ac ati) o dan y rheoliadau adeiladu oherwydd mai mater technegol yw hwn ac mai felly y dylid ei farnu. Pwy ddylai farnu mynediad o ran gostwng ymyl pafin a chroesffyrdd sebra ac ati mewn datblygiad ehangach? Bydd hyn yn aml yn disgyn drwy'r rhwyd.
- Bydd Datganiadau'n rhoi cyfle i bobl (gan gynnwys ymgynghorwyr statudol) gynnig sylwadau am geisiadau cynllunio. Nid yw trefniadau eraill yn gwneud hynny.
- Cynlluniwyd yr opsiynau uchod i gyd ar gyfer elfennau ac agendâu penodol, ac nid i gyflwyno golwg gyffredinol ar ddatblygiad. Mae rhai o'r [trefniadau] uchod yn amherffaith ac mae tuedd i dicio blychau ar gyfer materion heb esbonio sut y byddai rhywun yn mynd i'r afael â hwy. ...Mae Datganiad da yn help mawr i esbonio pa effaith mae datblygiad yn debygol o'i chael.

- Nid yw cydymffurfio â rheoliadau adeiladu o reidrwydd yn golygu bod rhywun yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae angen i'r holl luniadau Datganiadau a lluniadau dylunio ddangos bwriad y dylunydd er mwyn i bobl sy'n gwybod am ofynion pobl anabl allu tynnu sylw at unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud.
- Mae'r rheoliadau cynllunio ac adeiladu'n swyddogaethau ar wahân ac felly ni fyddai mynd ati'n llwyr ar sail rheoliadau adeiladu'n mynd i'r afael â dylunio gwael, dim ond i ba raddau y mae cynllun yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Dylid ailwampio'r Datganiadau ar gyfer Adeiladau Rhestredig er mwyn rhoi llai o bwyslais o lawer ar yr elfen fynediad a llawer mwy o bwyslais ar y dyluniad. Dylid cysylltu'r datganiad ag egwyddorion a chanllawiau Cylchlythyr Swyddfa Cymru 61/96.
- Cadw'r Datganiad, ond ei addasu. Darparu rhagor o eithriadau a gwneud y drefn yn un y gellir ei haddasu'n llwyr a dibynnu ar raddfa'r datblygiad. Cael gwared ag elfennau megis hygyrchedd am fod Rheoliadau Adeiladu'n ymdrin â hynny. Peidio â chynnwys unrhyw gysylltiad â BREEAM. Nid yw BREEAM o reidrwydd yn arwain at adeiladau sydd yn wirioneddol gynaliadwy ac nid dyma'r unig fethodoleg ar gyfer asesu cynaliadwyedd. Dylai Datganiadau ganolbwyntio ar egwyddorion craidd megis golwg a chymeriad, mynediad i gerbydau a chynaliadwyedd.
- Mae CSH a BREEAM yn cynnig ffordd fwy gwrthrychol/meintiol o ddangos egwyddorion y Datganiad, a all fod yn fwy cyson. Wedi dweud hynny, maent yn debygol o fod yn ailadrodd y newidiadau sydd ar y gweill i'r Rheoliadau Adeiladu.
- Nid yw'r Cod na BREEAM yn delio â'r "broses ddylunio". Yn hytrach [maent yn ymwneud â] sut mae eiddo'n gweithio. Wrth gael cynllunydd proffesiynol i ddadansoddi cais cynllunio gyda chymorth dylunio arbenigol, os bydd angen, fe ddylai hynny fod yn ddigon i benderfynu a yw'r dyluniad yn dda neu'n rhesymol neu beidio.
- Nid yw'r Cod na BREEAM yn ymdrin â phob mater dylunio, dim ond â chynaliadwyedd amgylcheddol mewn gwirionedd. Gallai datblygiad fod yn God 6 ond eto'n echrydus ei olwg heb

ddim perthynas rhyngddo â'i amgylchedd a heb fod yn hygrych ychwaith. Byddai blwch heb ddrysau'n effeithlon iawn o ran ynni!

3.10 Eithriadau i Ofynion y Datganiadau Dylunio a Mynediad

Yn ystod yr arolwg, ystyriwyd eithriadau i ofynion y Datganiadau, gan gyfeirio at fathau penodol o ddatblygiadau neu categorïau o leoliadau. Roedd y lleoliadau'n cynnwys ardaloedd cadwraeth neu safleoedd sy'n effeithio ar adeilad rhestredig, safleoedd mewn Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, safleoedd mewn ardal sydd fel arall yn ardal adeiledig, a safleoedd yng nghefn gwlad agored. Cafwyd ymateb gan 106 o bobl. Cynllunwyr oedd mwyafrif y rhain ac felly mae hyn yn gwyro'r ymateb tuag at farn y rheini sydd o blaid rheolaeth. Crëwyd y categorïau datblygu er mwyn rhoi blas o'r mathau o ddatblygiadau a fyddai o bosibl yn cael eu hystyried yn addas i'w heithrio o fewn ystod. Yn gyffredinol, nid oedd llawer o barodrwydd i ganiatáu eithriadau. Roedd y rhan fwyaf o'r eithriadau a gynigiwyd yn eithriadau ar gyfer ardaloedd adeiledig, lle nad oedd dim dynodiadau arbennig. Roedd cyfran dda (21% i 41%) yn meddwl na ddylid caniatáu dim eithriadau, ac roedd y ganran uchaf (41%) ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd cadwraeth, neu rai a oedd yn effeithio ar Adeiladau Rhestredig, Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Roedd cefnogaeth ymhlith y gweddill i'r syniad o ganiatáu eithriadau i ddatblygiadau tai llai, datblygu blaen siopau ac arwyddion, a datblygiadau annomestig bach mewn ardaloedd adeiledig. Ychydig iawn o bobl a oedd yn meddwl y dylai unrhyw grwpiau o gartrefi (2 neu ragor) neu gynlluniau masnachol mwy o faint gael eu heithrio. Ychydig a oedd yn meddwl y dylai adeiladau fferm gael eu heithrio.

Math o Ddatblygiad	Ardal adeiledig (%)	Ardal Gadwraeth neu Adeilad Rhestredig (%)	Parc Cen / AHNE (%)	Cefn Gwlad Agored (%)

Dim	21	41	41	27
Datblygiadau nad oes modd eu gweld o annedd cymdogion, priffordd gyhoeddus, adeilad â mynediad i'r cyhoedd neu hawl tramwy	39	28	27	36
Datblygiad bach gan berchennog tŷ megis estyniad	66	50	46	60
Annedd unigol	29	21	19	26
Rhwng 2 a 10 o anheddau (gan gynnwys adeilad sy'n rhandy)	10	9	8	11
Mwy na 10 o anheddau	3	4	4	4
Datblygiadau tu blaen siop neu arwyddion	47	30	36	39
Datblygiadau annomestig bach (estyniad neu adeilad newydd o dan 50 m sg o ofod llawr newydd)	50	34	35	42
Datblygiadau annomestig rhwng 50 a 200 m sg o ofod llawr newydd	25	22	20	22
Datblygiadau annomestig dros 200 m sg o ofod llawr newydd	4	6	4	6
Adeilad Fferm			23	27

Pob datblygiad annomestig mewn ardal sydd wedi'i dynodi'n eithriad rhag gorfod paratoi Datganiad	21	19	18	16
Datblygu cyfleusterau gwastraff a rheoli gwastraff	19	15	13	13
Datblygiad sy'n gysylltiedig â gwaith mwyngloddio	27	23	19	24

Wedyn gofynnodd yr arolwg am unrhyw fathau ychwanegol o ddatblygiad yr oedd pobl yn meddwl y gellid eu heithrio. Awgrymwyd y canlynol:

- Datblygiadau sydd gan mwyaf yn rhai nad oes neb yn byw ynddynt neu nad oes neb yn gallu byw ynddynt - is-orsafoedd trydan, bythau diogelwch, ffensys, ffiniau, rhwystrau ac ati.
- Amrywio ceisiadau cyflwr
- Newid defnydd
- Ceisiadau ôl-weithredol
- Ceisiadau ynghylch ffiniau
- Garejys
- Ceisiadau am unedau awyru neu rywbeth tebyg
- Ceisiadau'n ymwneud â cheffylau
- Ychwanegiadau bach at adeiladau diwydiannol.
- Mân geisiadau ar gyfer adeilad rhestredig - ei beintio neu osod soser lloeren.

- Ceisiadau am ynni adnewyddadwy sydd wedi cael asesiad tirwedd.
- Ceisiadau Adran 73 i amrywio amodau neu i estyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno materion sydd wedi'u cadw yn ôl.
- Adnewyddu caniatâd blaenorol
- Dylai mathau penodol o ddatblygiadau gael eu heithrio rhag agweddau penodol o'r Datganiad oherwydd eu natur neu eu maint - er enghraifft adeiladau amaethyddol (eithrio rhag materion mynediad, cynaliadwyedd amgylcheddol a symudiad).

3.11 Casgliadau'r Holiadur

Yn gyffredinol, mae pobl yn cefnogi'r Datganiad fel arf. Mae'n cael ei werthfawrogi fel dyfais gyfathrebu ac mae'n amlwg bod cynllunwyr yn teimlo bod y ffaith ei fod yn canolbwyntio ar faterion dylunio'n bwysig. Ond, mae ansawdd y datganiadau'n wael ar brydiau ac nid yw'r rhai gwaethaf o fudd wrth benderfynu ynghylch cais cynllunio. Bydd rhai ffurfiau ar Ddatganiadau'n cael eu trin yn anghyson gan awdurdodau cynllunio, gan greu oedi yn y drefn caniatâd cynllunio ac mae pobl yn meddwl eu bod yn ddiangen o ddud. Tueddir i feirniadu Datganiadau gwael am eu bod yn cyfeirio gormod at ddeunyddiau cyd-destunol, hanesyddol a materion sy'n gysylltiedig â pholisïau yn hytrach na'u bod yn esbonio cynllun yn syml er mwyn i bobl allu deall cyfleoedd a chyfyngiadau cyd-destun neu safle. Mae gwerth Datganiadau ar gyfer cynlluniau mwy i'w weld yn bwnc llai dadleuol o lawer.

Mae'n amlwg bod pobl yn teimlo bod y mathau o ddatblygiadau y mae'r Datganiadau'n berthnasol iddynt yn ddiangen o eang, ac y dylai ffurfiau llai ar ddatblygiadau gael eu heithrio, sy'n golygu y byddai pobl yn dibynnu ar y cynlluniau a gyflwynwyd yn unig er mwyn barnu unrhyw ragoriaethau dylunio. Yn ystod yr ymchwil, dechreuwyd amlygu categorïau penodol o ddatblygiadau a allai gael eu heithrio, er, yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn tueddu i awgrymu mai dim ond cynlluniau cymharol fach a ddylai gael eu

heithrio. Mae'n ymddangos hefyd bod rhywfaint o gytundeb y gallai fod yn fuddiol dosbarthu enghreifftiau o Ddatganiadau da a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ac y gellid ystyried amrywio'r gofynion rywfaint ar gyfer cynlluniau o wahanol faint. Byddai hyn o fudd i'r bobl sy'n cyflwyno cynlluniau ac i'r rhai sy'n eu hadolygu.

Yn gyffredinol, mae pobl yn cytuno bod gofynion y Datganiadau'n gorgyffwrdd â Rheoliadau Adeiladu o ran materion mynediad, ond bod trefniadau rheoleiddio eraill yn canolbwyntio ar wahanol bethau neu fod iddynt wahanol ddiben. O ran Rheoliadau Adeiladu, nid yw'r gorgyffwrdd ond yn berthnasol i agweddau penodol ar ddatblygiad (mynediad i adeiladau), ac nid yw'r drefn Rheoliadau Adeiladu'n caniatáu i Grwpiau Mynediad yn benodol gyfrannu na chynnig sylwadau. Mae'n werth dweud bod mynediad yn cael ei ystyried yn fater pwysig o safbwynt dylunio, ond bod llai o bwys yn cael ei roi arno nag a roddir ar gymeriad a'i fod yn cael ei ystyried yn weddol gyfartal o ran ei bwysigrwydd â chynaliadwyedd wrth asesu materion dylunio. Drwyddi draw, teimlir nad yw defnyddio Datganiad yn gwneud yn lle cael gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i farnu rhinweddau dylunio cynllun datblygu.

4. Gweithdy Pennu Cwmpas Materion

4.1 Fformat

Cynhaliwyd gweithdy ar 23 Ebrill 2013. Un elfen o'r broses ymchwil oedd hyn. Bwriad y gweithdy oedd dwyn ynghyd bobl a oedd yn ymwneud â chomisiynu, ysgrifennu, darllen a defnyddio Datganiadau er mwyn casglu amrywiaeth o safbwyntiau yn eu cylch yn gyflym. Rhoddir rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn Atodiad 5.

Rhannwyd y rhai a oedd yn bresennol yn dri grŵp yn ôl sut y byddent yn ymwneud â Datganiadau. Bwriad grwpio pobl fel hyn oedd sbarduno sgwrs a meithrin dealltwriaeth, yn hytrach na dadlau ynghylch materion neu sicrhau consensws. Dyma'r tri grŵp:

1. pobl a oedd yn ysgrifennu ac yn comisiynu Datganiadau
2. pobl sy'n derbyn Datganiadau, yn ymateb iddynt ac yn eu defnyddio
3. pobl sy'n cyfrannu at ddatblygu cynigion, yn ymateb i ymgynghori ac yn cynrychioli defnyddwyr adeiladau

Crynhwir yr holl sylwadau a gafwyd gan bob un o'r grwpiau mewn tabl yn Atodiad 6 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r prif bwyntiau a gododd o'r trafodaethau.

4.2 Crynodeb o'r Buddion

- Roedd lefel gyffredinol o gonsensws bod Datganiadau Dylunio a Mynediad yn arf da o'u defnyddio'n iawn.
- Mae Datganiadau Dylunio a Mynediad wedi'i gwneud yn haws i bobl ddeall cynllun ac i ddylunwyr esbonio neu gyfiawnhau eu penderfyniadau ynghylch dyluniad.
- Mae rhagor o sylw'n cael ei roi i gyd-destun datblygiad ac i ystyriaethau dylunio eraill sy'n help i sicrhau bod cynllun wedi'i "ddiogelu at y dyfodol".
- Roeddent yn cytuno bod Datganiadau wedi llwyddo i roi mwy o bwys ar ddylunio wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mae ystod lawn o ystyriaethau dylunio wedi'i chydblethu erbyn hyn â'r broses benderfynu. Roedd rhai'n teimlo ein bod bellach yn

dechrau gweld budd hyn ar ffurf gwell dylunio, ond nid oedd hyn bob tro'n wir.

- Gwelid bod y cyfle i gynnwys a meithrin cysylltiad ag amrywiaeth o ymgylchoreion, megis grwpiau mynediad o fudd yn ystod cam y cais cynllunio, ond bod lle i wella yn y cyswllt hwn o hyd.

4.3 Crynodeb o'r Materion

Ynghyd â'r manteision a godwyd yn y drafodaeth gychwynnol, mae'n amlwg bod rhywfaint o rwystredigaeth gyda'r broses bresennol sy'n adlewyrchu ar ba mor effeithiol yw'r Datganiadau. Mae'n bosibl categoreiddio'n fras rai o'r materion a godwyd o dan y penawdau hyn: Y trothwy ar gyfer gorfod paratoi Datganiad, diffyg dealltwriaeth/dealltwriaeth wael, ansawdd y datganiad yn sgîl hynny a'r trefniadau gorfodi.

- Y trothwy ar gyfer gorfod paratoi Datganiad
 - Roedd y rheini a oedd yn ysgrifennu ac yn derbyn Datganiadau'n cytuno bod gofyn eu paratoi ar gyfer gormod o fathau o ddatblygiadau ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod y broses yn aneffeithlon ac mae'n tanseilio hygyrchedd y gofynion. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r holiadur.
- Diffyg dealltwriaeth neu ddealltwriaeth wael o ofynion Datganiad
 - Mae anghysonderau dilysu rhwng awdurdodau cynllunio lleol yn creu dryswch ac mae hyn yn cael sgîl-ffaith ar ansawdd y dogfennau a gyflwynir (gweler isod).
 - Cydnabyddir y gall ansawdd dyluniad fod well yn sgîl paratoi Datganiad ond mae rhai Datganiadau i bob golwg yn cael eu prosesu gyda meddylfryd ticio blychau.
 - Credir bod diffyg eglurdeb ynghylch pwy y dylid ymgynghori â hwy a pha bryd yn ystod proses paratoi Datganiad.
 - Roedd y rheini a oedd yn cynrychioli grwpiau mynediad a swyddogion hygyrchedd yn teimlo bod mynediad wedi

llithro i lawr yr agenda dylunio a'i fod yn cael ei ystyried yn 'ychwanegiad' yn hytrach na'i fod yn cael ei gydbblethu â'r dyluniad, fel y bwriadwyd.

- Ansawdd y Datganiad o Ganlyniad i hyn
 - Dywedwyd bod ansawdd gwael y Datganiadau a gyflwynir yn broblem.
 - Weithiau, mae arwyddion i'w gweld bod elfennau Datganiad yn cael eu torri a'u gludo o ddogfennau eraill i'r graddau nad oes perthynas glos rhwng y Datganiad a'r cynllun dan sylw.
 - Oherwydd anghysonderau yn y broses ddilysu, mae rhai o'r rheini sy'n ysgrifennu'r Datganiadau'n or-betrus ac yn darparu gormod o wybodaeth. Felly, mae'r dogfennau'n rhy hir a chyffredinol.
- Defnyddio a Gorfodi
 - Roedd rhai'n meddwl bod y ffordd y caiff y Datganiadau eu defnyddio yn y broses benderfynu yn anghyson ac yn ddryslyd. Os nad ydynt yn cael eu defnyddio i wneud penderfyniadau, yna, fe ofynnwyd, i bwy maen nhw i fod?
 - Trafodwyd a ddylent fod yn statudol ynteu a oedd eu statws fel ystyriaeth berthnasol yn ddigon.
 - Mynegwyd pryder nad yw'r egwyddorion mewn Datganiad bob tro'n cael eu trosglwyddo i'r adeiladu a bod diffyg monitro a gorfodi.

4.4. Crynodeb o'r Gorgyffwrdd

- Wrth drafod a oes gorgyffwrdd rhwng Datganiadau a gofynion eraill, awgrymwyd bod gorgyffwrdd rhwng y Datganiadau a phroses Asesu'r Effaith ar yr Amgylchedd. Mae'r cyntaf yn aml yn dyblygu'r hyn a ddarperir yn y Datganiad Amgylcheddol.
- Roedd diffyg consensws ynghylch y gorgyffwrdd rhwng Datganiadau a rheoliadau adeiladu. Roedd y rhai a oedd yn ysgrifennu Datganiadau'n teimlo nad oedd yn briodol cynnwys pethau yn y Datganiad y byddai rheoliadau adeiladu'n ymdrin

â hwy ond y byddai'n ddefnyddiol cael sylwadau rheoli adeiladu ynghylch Rhan M ar rai ceisiadau. Roedd llai o bryder ynghylch gofynion Rhan L, ond roedd rhai'n teimlo na ddylid cyfeirio at faterion yn y Datganiad os bydd y rheini'n cael eu hystyried dan y drefn rheoliadau adeiladu.

- Bydd angen ystyried rheoliadau sy'n ymwneud â dylunio draeniau cynaliadwy yn y dyfodol yng nghyd-destun gofynion y Datganiad ac mae angen bod yn glir ynghylch sut y gwnaiff y ddwy drefn weithio gyda'i gilydd.

4.5 Crynodeb o'r Newidiadau a Awgrymir

- Newidiadau i'r gofynion
 - Awgrymwyd newid y gofynion ar gyfer gorfod darparu Datganiad gan seilio hynny ar faint neu arwyddocâd cynnig. Roedd llawer yn argymhell hyn, ond nid pawb, oherwydd bod rhai'n teimlo bod hyd yn oed mân newidiadau'n gallu effeithio ar gymeriad, hygyrchedd a diogelwch.
 - Awgrymwyd y dylid newid y gofynion i baratoi Datganiad ar gyfer y ceisiadau hynny y mae gofyn paratoi Asesiad o'r Effaith Amgylchedd ar eu cyfer, er mwyn lleihau dyblygu.
- Newidiadau neu ychwanegiadau i'r canllawiau
 - Drwy sicrhau rhagor o eglurdeb a chysondeb wrth ddilysu, bydd bod modd sicrhau bod cynnwys y Datganiad yn fwy penodol a pherthnasol.
 - Argymhellwyd y dylid darparu canllawiau ychwanegol er mwyn sicrhau bod llai o wybodaeth ddiangen yn cael ei chynnwys mewn dogfennau a lle bydd rhai penawdau'n llai perthnasol, bod modd rhoi llai o gynnwys neu beidio ag ymateb o gwbl.
 - Dylid ailadrodd bod angen i'r broses gynnwys ymgynghori.
 - Awgrymwyd darparu rhagor o hyfforddiant i bobl sy'n ysgrifennu ac yn derbyn Datganiadau.

5. Astudiaethau achos

5.1 Pwrpas astudiaethau achos

Ymchwil i astudiaethau achos er mwyn gweld beth oedd swyddogaeth y Datganiad Dylunio a Mynediad, os oedd iddo swyddogaeth o gwbl yn y broses ddatblygu ar gyfer prosiectau penodol, a sut yr oedd yn cydweddu â'r broses honno. Gwnaethpwyd hyn drwy archwilio sut, pa bryd, ymhle a chan bwy y defnyddid Datganiadau yn y broses ddatblygu ar gyfer pob un o'r prosiectau a ddewiswyd.

Pwrpas archwilio nifer fach o brosiectau'n fanwl dros gyfnod oedd:

- Osgoi cael ciplun cyffredinol neu statig o'r Datganiad.
- Osgoi gorddibynnu ar dystiolaeth argraffiadol.
- Gallu archwilio sut mae Datganiadau'n berthnasol i gynllunio mewn achosion go iawn.

Pwrpas archwilio prosiectau unigol oedd:

- Dilyn y prosiectau hynny drwy bob cam o'r broses o'r cychwyn un nes bod y prosiect wedi'i gwblhau a'r tu hwnt i hynny. Pwrpas hyn oedd gweld pa ran yr oedd y Datganiad yn ei chwarae o'r naill gam i'r llall.
- Cael gwybod sut yr oedd cynnwys Datganiad yn effeithio ar sut y byddai'n yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Pwrpas archwilio gwahanol brosiectau o wahanol faint a defnydd a cheisiadau llawn ac amlinell oedd gweld a oedd y gwahaniaethau hyn yn effeithio ar sut y defnyddid y Datganiad a'r rhan yr oedd yn ei chwarae yn y broses ddatblygu, ac, os oedd y newidiadau'n effeithio ar y pethau hynny, ym mha ffordd.

5.2 Methodoleg

Dewiswyd nifer o gategorïau ar gyfer yr astudiaethau achos er mwyn sicrhau bod ystod eang o faterion yn cael eu harchwilio. Roedd y categorïau hyn yn deillio o gamau cynharach yr adolygiad.

Roedd nifer o brosiectau ym mhob categori a'r rheini'n deillio o amrywiaeth o ffynonellau; data o Gam Dau uchod, yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac awgrymiadau ymgynghorwyr, tyrchu drwy gofrestrau cynllunio ar lein a phrosiectau ymchwil eraill. Roedd angen i'r datblygiad fod wedi dechrau mynd drwy'r broses ymgeisio ers cyflwyno Datganiadau ac yn ddelfrydol, roedd angen i'r gwaith adeiladu fod wedi digwydd. At hynny, roedd angen i'r brif bobl a oedd wedi cymryd rhan yn y prosiect, gan gynnwys y pensaer, yr ymgeisydd am hawl cynllunio a'r swyddog cynllunio fod ar gael ac yn barod i gael eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth.

Mae'r deuddeg prosiect a ddewiswyd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol drwy Gymru, ac maent yn enghreifftiau o wahanol fathau o geisiadau neu ddatblygiadau megis newid defnydd, ailddatblygu, datblygiadau newydd, ac yn rhai sydd wedi'u cynhyrchu gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat, er mwyn cynrychioli datblygiadau yng Nghymru gystal byth ag y gellir.

Ar gyfer pob achos, casglwyd yr un wybodaeth, gan ddefnyddio profforma. Dechreuodd yr astudiaethau achos gydag astudiaeth wrth ddesg o'r dogfennau cynllunio sydd ar gael i'r cyhoedd gan ddilyn hynny gyda chyfweiliadau strwythuredig dros y ffôn â'r prif randdeiliaid a'r cyfranogwyr gan ddefnyddio holiadur safonol. Roedd yr astudiaethau achos yn archwilio tri cham y broses ddatblygu: paratoi'r cais cynllunio - pa bryd, sut a chan bwy y byddai'r Datganiad yn cael ei ysgrifennu; ystyried y cais cynllunio - adolygu, dilysu a defnyddio'r Datganiad; rhoi'r cais cynllunio a gymeradwywyd ar waith a defnyddio'r adeilad ar ôl ei adeiladu – esblygiad y Datganiad a'i ddefnyddio.

Rhoddir crynodeb o bob un o'r astudiaethau achos yn Atodiad 7.

5.3 Prif Ganfyddiadau

Fformat y Dogfennau

Ac ystyried ystod y cynlluniau dan sylw, mae'n amlwg y byddai amrywiadau sylweddol rhwng achosion wrth ddewis cynnwys Datganiadau, ond roeddent yn rhoi sylw'n rheolaidd i bum thema TAN 12. Roedd cynnwys y Datganiadau'n amrywio o brosiect i brosiect, gan adlewyrchu eu hansawdd amrywiol, o'r rhai da a oedd

yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a phenodol am y safle, i rai gwannach a oedd yn dibynnu ar gyffredinoli, neu wybodaeth amherthnasol ac anghywir a brydiau. Roedd nifer y ffactorau yr oedd y Datganiad yn rhoi sylw iddynt ar gyfer prosiect hefyd yn amrywio o achos i achos gyda rhai yn rhoi sylw i'r rhan fwyaf o'r ffactorau ac eraill yn rhoi sylw i lai ohonynt. Roedd yr astudiaethau achos yn cadarnhau'r farn a fynegwyd yn yr holiaduron am ddilysu, oherwydd gwelwyd bod diffyg cynnwys o sylwedd yn cael ei drin yn wahanol gan Awdurdodau Cynllunio Lleol adeg y cam dilysu.

Roedd y Datganiadau'n amrywio o ran eu hyd a'u fformat o dudalen a hanner i 60 o dudalennau. Roedd rhai'n destun i gyd ac eraill yn gymysgedd o destun a lluniadau, yn A4 neu'n A3 ac ar fformat portread neu dirlun. Roedd yr hyd weithiau'n gysylltiedig â chymhlethdod y prosiect ond nid oedd yn gysylltiedig â'r math o brosiect na'i faint. Roedd Datganiadau a oedd yn cynnwys lluniadau'n yn fwy defnyddiol at ddibenion cyfathrebu cyffredinol ond, ar wahân i hyn roedd hyd a fformat y ddogfen yn dylanwadu llai ar werth y Datganiad.

Esblygiad y Dyluniad a'i Ddisgrifio

Gan amlaf, defnyddid Datganiadau i ddisgrifio, esbonio neu gyfiawnhau dyluniad. Roedd llai o dystiolaeth bod Datganiad yn cael ei ddefnyddio i ddangos esblygiad dyluniad prosiect. Darperid manylion am esblygiad rhesymwaith y dyluniad mewn ambell achos lle'r oedd yr awdur/dylunydd yn awyddus i ddylanwadu mewn rhyw ffordd ar sut yr oedd pobl yn gweld y prosiect. Er enghraifft, ar gyfer yr adeilad rhestredig, defnyddiwyd y Datganiad i gynnig cyfiawnhad cryf o blaid newid yr adeilad ac, yn achos y prosiect amaethyddol, defnyddiwyd y datganiad i esbonio a disgrifio gweithgarwch ffermio'r cynnig er mwyn i'r swyddog cynllunio allu ei ddeall. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, roedd y Datganiad i bob golwg wedi cael ei ysgrifennu gyda'r swyddog cynllunio mewn golwg er bod cydnabyddiaeth bod diffyg eglurdeb ynghylch pwy yw'r gynulleidfa darged.

Roedd llawer o'r rhai a gymerodd ran o blith yr achosion i gyd yn meddwl bod cynnwys y Datganiad - yn destun ac yn lluniadau - yn ddefnyddiol ar gyfer rhoi golwg neu luniad cyffredinol o'r prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys swyddogion cynllunio, ymgynghoreion statudol, grwpiau amwynder, cymdogion a chynghorwyr. Roedd hyn yn arbennig o wir am bobl lai technegol a gymerodd ran. Ar gyfer

prosiect yr adeilad rhestredig, rhoddwyd y Datganiad hefyd yn wybodaeth i gontractwyr er mwyn egluro'r rhesymau dros y fanyleb a'r hyn nad oedd modd cyfaddawdu yn ei gylch nac yn y costiau cychwynol nac mewn amrywiadau dilynol.

Yr Effaith ar y Dyluniad

Yn y cam cyn-ymgeisio, roedd y Datganiad bron bob tro'n cael ei ysgrifennu ar ôl i'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau dylunio allweddol gael eu gwneud, er mwyn esbonio'r dyluniad. Weithiau, roedd themâu TAN 12 yn ymddangos fel petaent wedi cael eu hól-addasu i gydweddu a'r disgrifiad o'r cynnig, oherwydd nid oeddent bob tro'n berthnasol i bob ffurf ar ddatblygu.

Mewn chwarter o'r achosion, nid oedd awdur y Datganiad yn aelod o'r tîm dylunio. Mewn dau o'r achosion hyn, nid oedd gan yr awdur ddim cysylltiad uniongyrchol â'r dylunwyr ac roedd yn dibynnu ar wybodaeth annigonol a ddarparwyd gan y cleient ar gyfer paratoi'r Datganiad. Felly, mewn un o'r achosion hyn, roedd gwrthdaro rhwng y Datganiad a'r cynlluniau a'r ffurflen gais.

Pan ofynnwyd i'r ymgeiswyr mewn cyfweiliad beth oedd pwrpas Datganiad yn eu barn hwy, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr mai dilysu'r cais oedd un o'r prif bwrpasau. Yn yr achosion bach, ychydig o werth i bob golwg oedd i'r Datganiad ac nid oedd yn fawr fwy nag ymarfer ticio blychau gan y naill ochr a'r llall er mwyn sicrhau bod y cais yn cael ei gofrestru.

Yn ystod cam ôl-gofrestru'r cais, anaml y cyfeirid at y Datganiad mewn sylwadau, gwrthwynebiadau, adroddiadau pwyllgorau na phenderfyniadau. Yr unig eithriad i hyn oedd ar gyfer y cais amlinell i'r cynllun masnachol mawr mewn tref lle'r oedd y Datganiad mewn gwirionedd yn uwchgynllun ar gyfer y datblygiad. Felly, yn yr achos hwn, dyma oedd ffocws sylwadau'r holl ymgynghoreion, ond nid oedd y ffordd y cafodd ei ddefnyddio yn yr achos hwn yn nodweddiadol. Gan mwyaf, byddai swyddogion cynllunio, ymgynghoreion proffesiynol ac eraill yn dibynnu ar ddogfennau mwy manwl a thechnegol eraill, megis cynlluniau a gwybodaeth ategol er mwyn newid y dyluniad yn ystod cam ôl-gofrestru'r prosiect.

Roedd llai o dystiolaeth bod Datganiadau'n cael eu defnyddio'n fecanwaith i wella ansawdd dyluniad mewn gwirionedd. Yn ein hachosion ni, roedd ansawdd y dyluniad a gwelliannau iddo'n deillio o'r canlynol: defnyddio datganiad amgylcheddol yn y prosiect PDR, briffiau prosiect da a chanllawiau dylunio eraill, rhai cenedlaethol a rhai awdurdodau lleol, mewn dau o'r prosiectau preswyl, proses ddylunio dda a oedd yn cynnwys ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid a defnyddwyr yn y prosiect adeiladu cyhoeddus, trafodaethau cyn-ymgeisio gyda swyddogion cynllunio ac ymatebion ôl-gofrestru i sylwadau, ac yn fwyaf pwysig, defnyddio dylunydd da neu dîm dylunio da, fel y gwelwyd yn y prosiect un annedd. Lle'r oedd ansawdd y Datganiad yn dda, roedd hynny gan amlaf yn adlewyrchu ansawdd da mewn mannau eraill yn y broses.

Dogfen Fyw

Mewn rhai achosion, diwygiwyd y dyluniad yn ystod y broses gynllunio. Roedd hyn yn effeithio ar yr wybodaeth yn y Datganiad, ond er hynny, ni ofynnodd y swyddog cynllunio i'r awdur ddiweddarau'r Datganiad er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn. Felly, anaml byddai'r Datganiad yn esblygu yn ystod y broses ac ni ddaeth yn 'ddogfen fyw' yn yr un achos y tu hwnt i gam adeiladu'r prosiect.

Cynnwys

Roedd y Datganiadau'n gyffredinol yn dangos diffyg dadansoddi safleoedd. Byddai polisiâu'n aml yn cael eu rhestru neu'n cael eu hatgynhyrchu'n llawn ond ni fyddai cyd-destun y polisi ei hun yn cael ei ddadansoddi. Byddai cyd-destun ffisegol y safle'n aml yn cael ei ddisgrifio, a hynny'n eithaf da ar adegau, ond unwaith eto, anaml y byddai'n cael ei ddadansoddi. Prin y cyfeirid at y cyd-destun economaidd a chymdeithasol. Felly, roedd y rhan fwyaf o'r Datganiadau'n dangos diffyg trafodaeth ynghylch y cyfleoedd a'r cyfyngiadau.

I bob golwg, nid yw gofynion y Datganiadau wedi gwneud llawer i ehangu'r ffordd y mae dylunwyr yn gweld mynediad. Ychydig o dystiolaeth a welwyd bod pobl yn wir yn deall mynediad cynhwysol na'u bod yn ymrwymo i'w sicrhau yn y Datganiadau. Gan amlaf, roedd adran mynediad y Datganiadau'n cynnwys rhestr fer o ddatganiadau cyffredinol nad oeddent yn benodol iawn i'r safle ac

roeddent yn ymwneud â mynediad i bobl anabl yn unig. Er enghraifft, "darperir mynediad gwastad" ni waeth am dopograffeg na chynllun y safle. Mewn dau achos, er enghraifft, roedd y dyluniad yn gwrth-ddweud y datganiad hwn oherwydd, pan gyflwynwyd y cais, nid oedd mynediad gwastad mewn gwirionedd yn cael ei ddarparu. Bydd datganiadau mor gyffredinol â hyn yn aml yn ymddangos fel petaent wedi'u copïo a'u gludo o rywle arall.

Ychydig o ddylanwad i bob golwg y mae gofynion Datganiadau wedi'i gael ar gynaliadwyedd amgylcheddol, sydd gan mwyaf yn cael sylw cymharol dda o dan drefniadau rheoleiddio eraill megis rheoliadau adeiladu a safonau ansawdd megis BREEAM. Roedd y Datganiadau'n aml yn cyfeirio at y ddau hyn. Yn ogystal â'r cyfeiriadau hyn, roedd yr adran hon o'r Datganiadau'n aml yn cynnwys rhestrau byr o ddatganiadau cyffredinol nad oeddent yn arbennig o ddibynadwy nac ychwaith yn benodol i'r safle. Unwaith eto, roedd yn ymddangos fel petaent wedi cael eu copïo a'u gludo o rywle arall.

Roedd yr un math o broblemau'n codi yn adrannau diogelwch cymunedol y Datganiadau.

5.4 Casgliad - Astudiaethau Achos

Gwelwyd bod y Datganiadau'n ddefnyddiol at ddibenion cyfathrebu'n gyffredinol â nifer o wahanol gynulleidfaoedd, ac, yn y cyswllt hwn, roeddent yn cael eu hystyried yn werthfawr iawn ar gyfer cynlluniau arwyddocaol yn benodol. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r holiadur. Serch hynny, nid yw rhai o'r swyddogaethau y disgwyliid i'r Datganiadau eu cyflawni'n cael eu gwireddu ar lefel ymarferol. Yn benodol, nid yw'r Datganiadau'n cael eu defnyddio'n ddogfennau byw, ac felly, nid ydynt yn cael eu diweddarau i adlewyrchu newidiadau neu ddiwygiadau i gynllun. Yn hytrach, maent yn cynrychioli'r ffurf sydd ar ddatblygiad pan gyflwynir ef ar gyfer caniatâd cynllunio. Mae'r ffaith bod gofyn i bob ffurf ar ddatblygiad gael Datganiad a bod gofyn i hwnnw gyfeirio at holl benawdau TAN 12 yn arbennig o feichus ac yn tanseilio gwerth y Datganiadau'n gyffredinol. Er ei bod yn anochel y bydd Datganiadau'n amrywio o ran eu hyd, eu sylwedd a'u hansawdd, mae'n ymddangos bod y gofynion yn creu meddylfryd ticio blychau, wrth i ymgeiswyr ac

awdurdodau cynllunio geisio gwneud synnwyr o'r gofynion ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau. Mae hyn yn arwain at wahanol ffyrdd o'u trin, ac anghysonderau yn y cam cofrestru rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol. Yn olaf, roedd yr astudiaethau achos yn cynnwys nifer o gynlluniau llai o faint, ac roedd y rhain yn tueddu i gadarnhau canfyddiadau mewn mannau eraill, sef ei bod yn ymddangos bod yna rai ffurfiau ar ddatblygu lle nad oes angen Datganiad. Adlewyrchir hyn yn yr agwedd sinigaidd sydd gan bobl at y dogfennau a'u hansawdd. Serch hynny, gwelsom hefyd fod rhai cynlluniau llai o faint ar eu helw o baratoi Datganiad, lle bydd y dylunydd yn gweld budd cyfleu ei resymwaith. Felly, byddai'n beth da cadw Datganiadau'n elfen ddewisol ar gyfer pob cais.

6 Crynodeb o'r Canfyddiadau

Yn yr adran hon, crynhoir canfyddiadau'r adolygiad o'r llenyddiaeth, y gweithdai, yr holiaduron a'r astudiaethau achos ac fe gynigir cyfres o faterion i'w hystyried mewn perthynas â gwneud argymhellion ar gyfer y dyfodol.

6.1 Paratoi'r Datganiad

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod arwyddocâd gweithdrefnol y Datganiad, h.y. y ffaith ei bod yn hanfodol paratoi un er mwyn i gais gael ei ystyried, yn dylanwadu'n gryf ar y ffordd mae'n cael ei baratoi. Mae nifer o ganlyniadau i hyn, gan gynnwys:

- roedd rhai datganiadau'n cynnwys gwybodaeth ddiangen neu ormodol nad oedd yn berthnasol i ystyried y cais cynllunio;
- roedd ymgeiswyr wedi cynhyrchu dogfennau mawr, sgleiniog ar gyfer datblygiadau bach er nad oedd angen hynny ac ystyried nad oedd y prosiectau'n gymhleth iawn;
- weithiau nid oedd digon o feddwl wedi bod am y dylunio yn y Datganiad, neu roedd y cynnwys yn arwynebol;
- roedd y Datganiadau'n dilyn penawdau TAN 12, ni waeth a oedd y rhain yn berthnasol i gais penodol ai peidio.

Un o'r ffactorau a oedd yn cyfrannu at hyn i bob golwg oedd bod ymgeiswyr nad oedd ganddynt fawr o brofiad o'r system gynllunio'n aml yn teimlo bod swyddogion fwy neu lai'n ysgrifennu'r Datganiad drostynt. Mae'n amlwg mai'r duedd yn yr achosion hynny oedd bod Datganiad yn cael ei baratoi er mwyn cydymffurfio â'r system yn hytrach na bod y dylunydd yn meddwl am y datblygiad. Mae hyn yn awgrymu, mewn nifer fawr o geisiadau ar gyfer prosiectau llai gan ymgeiswyr dibrofiad, mai'r sefyllfa gyffredinol yw nad yw'r math o fyfyrion ar ddylunio a mynediad, sef yr hyn y mae'r Datganiadau i fod i'w annog, yn digwydd. Felly, gwelwyd nad oedd y gofyniad i baratoi Datganiad ar gyfer cynlluniau o'r fath yn cyfrannu mewn unrhyw ffordd o bwys at y broses benderfynu ynghylch dyluniad. Yn yr achosion hyn, teimlid bod y gofyniad i baratoi Datganiad yn aneffeithiol ac felly y dylid adolygu'r gofyniad hwn.

Roedd mwyafrif helaeth yr astudiaethau achos yn cynnwys Datganiad a oedd wedi'i ysgrifennu gan weithiwr proffesiynol a oedd â rhywfaint o brofiad o baratoi dogfennau ar gyfer y system gynllunio. Yn y rhan fwyaf, roedd yr awdur yn rhan o'r tîm dylunio neu'n agos ato; mewn achosion eraill, nid oedd gan yr awdur fawr o gysylltiad, os o gwbl, â dylunio neu adeiladu'r datblygiad. Roedd yr achosion hynny lle nad oedd gan awdur y Datganiad gysylltiad â'r broses ddylunio'n tueddu i baratoi Datganiad nad oedd fawr o werth iddo o ran esbonio'r prosiect. Roeddent yn anghyson o ran cydymffurfio â'r canllawiau cynllunio ac roeddent weithiau'n cynnwys gwallau ffeithiol am y datblygiad ei hun. Nid oedd awgrym yn yr enghreifftiau hyn bod yr ymgeisydd a'r dylunydd wedi ystyried dyluniad eu datblygiad, yn enwedig yng nghyswllt elfennau allweddol dylunio TAN 12. Cesglir, mewn achosion o'r fath, fod Datganiad yn aml yn cael ei ystyried yn ymarfer 'ticio blychau'.

Weithiau, bydd gofyn cyflwyno achos manwl a chyhoeddus iawn i esbonio rhinweddau dylunio cais. Mae modd i'r mathau hyn o achosion gynnwys newidiadau sylweddol i adeiladau rhestredig, datblygu mewn ardal gadwraeth neu ardaloedd eraill â dynodiad arbennig, tai newydd mewn pentrefi gwledig bychain, cynigion a all fod yn destun adolygiad dylunio (er enghraifft gan Gyngor Dylunio Cymru), cynlluniau tai ar raddfa fawr a datblygiadau mawr yng nghanol dinasoedd. Canfu'r ymchwil fod y Datganiad mewn achosion o'r fath yn fwy tebygol o fod yn ystyriol, yn rhesymol o gynhwysfawr a'i fod yn cynnig rhesymwaith eithaf clir dros y prosiect.

Dangosai rhai o'r achosion fod ymgeiswyr profiadol a chanddynt adnoddau cymharol dda (megis adeiladwyr tai ar raddfa fawr, manwerthwyr cenedlaethol a darparwyr seilwaith) yn paratoi Datganiadau a oedd yn ddigonol ac yn ddefnyddiol. Roedd gan yr ymgeiswyr hyn dimau dylunio profiadol. Ar y llaw arall, bydd ymgeiswyr ar gyfer ceisiadau llai'n dymuno osgoi unrhyw oedi wrth gael ystyried eu cais - oedi a allai godi yn sgîl dadlau dros gynnwys Datganiad. Maent yn sensitif i'r amrywiadau rhwng awdurdodau cynllunio lleol o ran sut y creffir ar Ddatganiadau cyn dilysu cais. Drwyddi draw, gwelwyd bod llawer o ymgeiswyr o'r fath yn tueddu i baratoi Datganiad sydd naill ai ond yn cyflawni'r gofynion lleiaf posibl er mwyn sicrhau bod eu cais yn cael ei ddilysu, neu eu bod yn

cynnwys llawer o ddeunydd diangen er mwyn ymateb i bob gofyniad posibl.

6.2 Defnyddio'r Datganiad Dylunio a Mynediad

Mae gofynion y Datganiad yn orgymhleth ar gyfer rhai cynlluniau. Mae Is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob Datganiad gyfeirio at y pum pennawd a gyflwynir yn TAN 12. Y rhesymwaith dros hyn yw annog pobl i roi mwy o sylw i ystod eang o faterion dylunio cyn cyflwyno'r cais cynllunio. Nid oes dim tystiolaeth bod annog neu fynnu hyn yn addysgu'r bobl hynny nad oes ganddynt gymaint â hynny o ymroddiad i sicrhau ansawdd y dylunio er mwyn gwella canlyniad y datblygiad. At hynny, ar gyfer llawer o gynlluniau, mae'r lluniadau'r dyluniad yn ddigon i helpu pobl i ddeall y cynnig, ac ni chredir bod y penawdau'n berthnasol.

Bydd pobl yn aml yn cyfeirio at bob un o benawdau TAN 12 mewn Datganiad er mwyn cydymffurfio â gofynion dilysu cynllunio'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac nid oherwydd bod pob pennawd yn berthnasol i esbonio'u cynllun. Mae'r gofyniad hwn yn tueddu i wneud ymgeiswyr yn sinigaidd ynghylch y broses gynllunio, mae'n tanseilio dilysrwydd Datganiadau, yn creu costau ychwanegol i rai ymgeiswyr ac mae weithiau'n achosi oedi yn y broses cofrestru cynlluniau. Byddai'n fwy priodol ac effeithiol cael dull mwy ystyriol a detholus, sy'n rhoi'r cyfrifoldeb i ddylunydd cynllun benderfynu pa faterion sy'n berthnasol. Gellid seilio hyn ar drafodaethau cyn-ymgeisio, ac fe ddylid gwneud hynny.

Ar gyfer cynlluniau arwyddocaol, gwelwyd bod penawdau TAN yn berthnasol ac nid oedd dylunwyr yn cael fawr o drafferth i esbonio'r cynigion ar eu cyfer. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd Datganiad yn dwyn ynghyd ac yn trefnu rhesymwaith ar gyfer datblygiad, gan esbonio nodweddion y cynllun. Mae hyn ar ei fwyaf effeithiol pan fydd y cleient a dylunydd yn sylweddoli gwerth y Datganiad fel ffordd o gyfleu eu dealltwriaeth o'r safle yn ei gyd-destun, a gofynion eu datblygiad neu rinweddau dylunio penodol cynllun. Mae Datganiad diffygiol (h.y. un nad yw'n cydymffurfio â gofynion y canllawiau cynllunio o ran ei strwythur a'i gynnwys) ar gyfer cynllun arwyddocaol, yn golygu bod y cleient a'r dylunydd yn colli cyfle i gyfrannu at y broses benderfynu.

Mae'r canllawiau ar gyfer Datganiadau yn annog pobl i'w trin fel "dogfen fyw". Anogir awduron i ddangos y broses a ddilynwyd wrth i ddyluniad ddatblygu er mwyn helpu i esbonio a chyfiawnhau'r cynllun. Dylai newidiadau i'r cynllun gael eu hadlewyrchu hefyd wrth ddiwygio'r Datganiad wedi hynny. Ar lefel ymarferol, pan fydd cynlluniau'n cael eu diwygio drwy'r broses cymeradwyo ceisiadau cynllunio, fel rheol, ni fydd y Datganiad yn cael ei ddiwygio. Felly, nid yw'r Datganiad a baratowyd gyda'r cais cynllunio'n adlewyrchu pob agwedd ar y gymeradwyaeth derfynol. Oherwydd hynny, ychydig o allu sydd i orfodi'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu neu wedi'i ddarlunio yn y Datganiad er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei drosi i'r ffurf adeiledig. Mae'n ymddangos y gellir dileu'r disgwyliad hwn ar gyfer Datganiad.

Mae gwerth i Ddatganiadau fel cyfrwng cyfathrebu a gyflwynir ochr yn ochr â chynlluniau perthnasol. Gwelwyd fod hyn yn wir ar gyfer swyddogion dylunio, swyddogion cyswllt pensaernïol yr heddlu, rhai rheolwyr datblygu, grwpiau mynediad, aelodau o'r cyhoedd ac aelodau pwyllgorau. Yn yr arolwg, adlewyrchir hyn yn yr agwedd gadarnhaol iawn sydd gan y grwpiau hyn at Ddatganiadau. Gall Datganiad da ddwyn ynghyd esboniad neu gyfiawnhad ar gyfer cynllun, a gwneud y cynllun a ddangosir yn y lluniadau'n haws ei ddeall. Mae hyn yn arbennig o wir am gynlluniau arwyddocaol sy'n fawr ac yn gymhleth neu o bosibl sy'n gynlluniau llai o faint ond mewn lleoliadau sensitif. Yn gyffredinol, bydd swyddogion dylunio a swyddogion pensaernïol yr heddlu bob tro'n darllen y Datganiad ar gyfer cynllun arwyddocaol sydd o ddiddordeb iddynt. Bydd fel rheol yn cael ei ddarllen gan reolwr y datblygiad er na chyfeirir yn benodol at ei gynnwys mewn adroddiadau pwyllgorau neu amodau cynllunio. Bydd ymgylgoreion statudol eraill, megis swyddogion priffyrdd, yn darllen datganiadau weithiau ond nid bob tro. Mae gallu Datganiad i gyfathrebu'n help i ddatrys dadleuon o sylwedd ynghylch materion dylunio sy'n codi drwy gydol y broses benderfynu ynghylch cais cynllunio. Mae o fudd o ymgeiswyr ac i awdurdodau lleol ac fe ddylai hyn wneud y broses gynllunio'n fwy tryloyw ac yn gadarnach ei seiliau. Mae lle i ddatganiadau gwael yn y system hefyd am eu bod yn datgelu diffyg gwybodaeth neu ddiffyg gallu dylunio i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith.

O ran rhai cynlluniau llai o faint, croesewid yr opsiwn i ddylunydd esbonio a chyfiawnhau'r datblygiad. Bydd esbonio gofynion defnydd anghyfarwydd yn gyfle i swyddog cynllunio ddeall ffurf adeilad. Bydd

esbonio dyluniad cyfoes yn rhoi cyfle i ddylunydd ddangos sut mae wedi ymateb i amgylchiadau cyd-destun sensitif neu wedi ymateb i bryderon cymydog. Roedd rhai penseiri'n falch iawn o gael cyfle i esbonio'u dyluniadau. Mae'n ymddangos yn beth gwerthfawr pwysleisio gwerth cyfathrebu Datganiad i bob ymgeisydd er mwyn iddo allu dewis paratoi un, hyd yn oed os na fydd yn cyfeirio at holl benawdau TAN 12. Roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid Datganiadau'n awgrymu y dylai canllawiau newydd gynnig enghreifftiau perthnasol ar gyfer gwahanol fathau neu raddfeydd o ddatblygu, gan wneud cyfeirio at y pum pennawd yn ddewisol ar gyfer cynlluniau llai arwyddocaol.

Nid oedd yr ymchwil yn nodi dim enghreifftiau o swyddogion rheoli adeiladu'n cyfeirio at Ddatganiad. Gwelodd yr ymchwil fod grwpiau mynediad yn cefnogi cysyniad y Datganiad, er nad oedd neb ohonynt wedi ymwneud â dim o'r astudiaethau achos. Nid oes gan swyddogion mynediad (lle bydd awdurdodau lleol yn eu cyflogi) adnoddau i gynnig sylwadau am geisiadau cynllunio perthnasol, ond efallai yr ymgynghorir â hwy ynghylch paratoi canllawiau dylunio. Felly, yng nghyswllt ceisiadau cynllunio, nid yw'r Datganiad yn help i fynd i'r afael â materion hygyrchedd, oherwydd diffyg gwybodaeth y rhai sy'n rhan o'r broses a diffyg adnoddau i arbenigwyr gyfrannu ar yr adeg iawn. Felly, teimlwn fod angen inni ddod o hyd i fecanwaith arall er mwyn sicrhau bod arbenigedd ynghylch hygyrchedd yn rhan o'r system gynllunio.

Mae diffyg ymwneud â Rheoli Adeiladu ynghylch gofynion Rhan M o'r Rheoliadau Adeiladu adeg y cam cynllunio yn golygu na fydd y math o sensitifrwydd i faterion mynediad sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn cael sylw drwy gydol proses rhoi caniatâd cynllunio drwedd i roi'r cynllun ar waith. Gwelwyd tystiolaeth bod swyddogion cynllunio'n gofyn am nodweddion ar gyfer datblygiad a oedd yn groes i ofynion Rhan M, ac a fyddai'n achosi tensiynau'n ddiweddarach adeg y cam Rheoli Adeiladu. Nid oedd gofynion y Datganiad yn datrys y math hwn o sefyllfa.

O ran swyddogion dylunio, swyddogion cyswllt pensaernïol yr heddlu ac aelodau grwpiau mynediad, mae gwerth y Datganiad i'w weld ar ei amlycaf yn y ffordd y mae'n canolbwyntio ar y dyluniad, oherwydd mai materion dylunio sydd o ddiddordeb pennaf i'r grwpiau hyn. Wedi dweud hynny, roedd gan y bobl a gymerodd ran

yn yr astudiaethau achos ddiddordeb yn lluniadau'r cynlluniau a gyflwynwyd i'w cymeradwyo. Gan amlaf roedd ganddynt eu ffordd eu hunain o'u dehongli a'u barnu. Yn y cyswllt hwn, nid oedd y Datganiad yn elfen mor ganolog o broses cymeradwyo'r cais.

6.3 Canlyniadau Dylunio

Ar sail yr ymchwil a wnaethom, nid oedd tystiolaeth bod paratoi Datganiad wedi arwain yn benodol at wella dyluniad unrhyw un o'r datblygiadau a ystyriwyd yn yr astudiaethau achos. Yn gyffredinol, cydnabuwyd bod dyluniadau da'n deillio o gyfuniad o amgylchiadau y tu allan i broses paratoi'r Datganiad. Roedd maint cynllun neu gyddestun sensitif neu adeilad rhestredig yn golygu bod pawb a oedd yn rhan o'r broses yn fwy gofalus gyda'r dylunio. Ffactorau eraill a oedd yn dylanwadu ar ansawdd y canlyniad oedd cael cleient a briff da, ac yn anad dim, ansawdd y dylunwyr sy'n ymwneud â'r prosiect. Gallai'r cynllunio ddylanwadu ar y dyluniad mewn ffordd ragweithiol drwy ddefnyddio uwchgynlluniau, canllawiau dylunio, briffiau dylunio, ac elfen bwysig arall yw ddefnyddio trafodaethau cyn-ymgeisio.

Roedd ansawdd y Datganiad gan amlaf yn adlewyrchu'r ffactorau hyn, yn hytrach na dylanwadu arnynt. Yn gyffredinol, roedd pobl yn cydnabod bod y system gynllunio'n meincnodi safon dylunio a datblygu sy'n cael ei hystyried yn ddigonol, ac mai dewis y datblygwyr a'r dylunwyr wedyn oedd gwella pethau i ragori ar y meincnod hwn, gan gynnwys darparu gwell Datganiad.

Nid yw'r gofyniad i baratoi Datganiad yn rhoi mwy o awdurdod i neb yn y system gynllunio wella dyluniad. Gwelwyd bod natur yr ymgeisydd a'r tîm cefnogi, ac i ba raddau y byddent yn dilyn proses cyn-ymgeisio / yn defnyddio arfau cynllunio rhagweithiol, mewn gwirionedd yn caniatáu i'r system gynllunio ddylanwadu ar ansawdd y dyluniad i sicrhau safon dderbyniol, naill ai drwy drafodaethau cyn neu ôl-ymgeisio neu wrth adolygu'r dyluniad. Gall Datganiad da fod o help gyda'r broses hon a dangos pa benderfyniadau dylunio sydd wedi'u gwneud. Mae Atodiad Un o TAN 12 yn dweud bod DAS *yn gyfrwng cyfathrebu sy'n dangos bod amcanion dylunio da (gan gynnwys egwyddorion dylunio cynhwysol) wedi'u hystyried o gychwyn y broses ddatblygu*. Ar gyfer cynlluniau arwyddocaol neu gynlluniau mewn lleoliad sensitif, bydd Datganiadau'n gwneud hyn

yn dda. Ar gyfer cynlluniau llai arwyddocaol, nid ydynt mor berthnasol, yn anad dim oherwydd bod lluniadau'r cynllun yn aml yn ddigon i gyfleu manylion y dyluniad.

O ran mynediad, mae'r canlyniadau i bob golwg yn adlewyrchu natur yr ymgeisydd a'r sector datblygu mae'n gweithio ynddo, yn hytrach na'u bod yn adlewyrchu dylanwad gofynion y Datganiad. Er enghraifft, mae gan fanwerthwyr mawr set sefydledig o dulliau dylunio a rheoli ar gyfer gwneud siopau unllawr annibynnol i'w defnyddio gan sector eang o'r boblogaeth. Mae gan ddatblygwyr swyddfeydd masnachol, tai, ffyrdd ac ati, eu dulliau hwythau. Mae'r dulliau hyn wedi codi yn sgîl arferion sydd wedi cael eu herio ar brydiau a'u haddasu, yn sgîl pwysau allanol, megis anghenion newidiol cleientiaid/defnyddwyr, grwpiau pwysu (y mudiad anabled er enghraifft) a rheoliadau'r llywodraeth. Nid oes tystiolaeth, fodd bynnag, bod y Datganiad yn gyfrwng a allai gyflawni swyddogaeth debyg. Felly, bydd canlyniadau ar gyfer hygyrchedd yn adlewyrchu cryfderau a chyfyngiadau mathau penodol o ddylunwyr sy'n gweithio i gleientiaid penodol mewn sector penodol. Roedd canlyniadau'r astudiaethau achos yn gymysg, ond, i bob golwg, ychydig o ddylanwad yr oedd Datganiadau wedi'i gael o ran gwella'r dylunio mewn gwirionedd. At hynny, prin oedd y dystiolaeth bod dylunio cynhwysol yn cael ei fabwysiadu fel safbwynt strwythurol wrth ddatblygu cynllun. Bodolaeth rheoliadau - yn enwedig Rhan M - i bob golwg oedd yn bwysig. Roedd hyn yn golygu bod mynediad yn cael ei ynysu oddi wrth ystyriaethau eraill ynghylch defnyddioldeb. Er enghraifft, efallai y byddai datblygiad archfarchnad yn cael ei ddylunio'n ddigonol mewn perthynas â Rhan M, a bod y datblygiad hwnnw'n ddefnyddiol iawn i'r holl siopwyr hynny (mewn ceir) sy'n gallu ei gyrraedd, ond nad oes ganddo gysylltiadau da â chludiant cyhoeddus na chysylltiadau i gerddwyr. Mewn ambell achos, gwelwyd sylw cyffredinol yn dweud bod yna ymrwymiad i ddylunio cynhwysol ond nid oedd tystiolaeth bod ystyriaeth fanwl wedi'i rhoi i sut yr oedd hyn yn berthnasol i ddyluniad y safle a/neu'r adeilad cyn iddi fod yn rhy hwyr. Mae hyn yn awgrymu bod angen dull amgen er mwyn sicrhau bod materion hygyrchedd yn cael sylw drwy'r system gynllunio.

7 Argymhellion

7.1 Argymhellion

Mae'r adran hon yn rhestru cyfres o argymhellion sy'n ymateb i ganfyddiadau'r ymchwil. Fel y crynhowyd yn y bennod flaenorol, mae'r ymchwil wedi datgelu gwendidau sylweddol o ran effeithiolrwydd Datganiadau fel mecanwaith i wella dylunio. Serch hynny, wrth asesu eu gwerth yn gyffredinol, gwelwyd bod rhai canlyniadau cadarnhaol wedi deillio o gyflwyno'r gofyniad am Ddatganiadau yn 2009. Felly, credir ei bod yn werth addasu'r gofynion yn hytrach na chael gwared yn llwyr â Datganiadau fel un o arfau'r broses gynllunio. Rhaid i'r addasiadau hyn roi sylw i'r agweddau hynny yn y gofynion y gwelwyd eu bod yn peri rhwystredigaeth ac sy'n cael eu hystyried yn orfeichus. Rhagwelir y bydd mynd i'r afael â'r ffactorau hyn yn golygu bod y Datganiadau'n cael eu defnyddio mewn ffordd fwy dethol a'u bod felly'n fwy effeithiol.

Isod, cyflwynir yr argymhellion gan nodi pa faterion y rhoddwyd sylw iddynt, pa fuddion a ddisgwylir, a'r dewisiadau eraill a ystyriwyd.

Argymhelliad 1

Dylid diwygio'r gofyniad i baratoi datganiad dylunio a mynediad gan leihau nifer y ceisiadau y mae gofyn paratoi datganiad ar eu cyfer. Lle nad yw'n ofynnol paratoi datganiad, gellir cyflwyno un yn wirfoddol gyda chais. Yn y naill achos a'r llall, prif swyddogaeth y datganiad fydd bod yn gyfrwng cyfathrebu.

Mae'n amlwg o'r gwaith ymchwil bod Datganiadau'n ddefnyddiol fel cyfrwng cyfathrebu, yn enwedig ar gyfer ceisiadau mwy o faint a mwy cymhleth. Serch hynny, gall y gofyniad i baratoi Datganiad ar gyfer ceisiadau bach beri rhwystredigaeth gan wneud y broses ymgeisio'n fwy o faich. Felly, cynigir diwygio'r gofyniad.

Bydd angen sefydlu trothwy addas ar gyfer gorfod paratoi Datganiad. Ystyriwyd yr opsiynau a chyflwynir yr opsiwn a ffefrir yn

Argymhelliad 2 isod.

Yn ôl yr is-ddeddfwriaeth fel y mae, dim ond ar gyfer 'cais am ganiatâd cynllunio' y mae gofyn cyflwyno Datganiad, gydag ambell eithriad. Felly, nid oes gofyn paratoi Datganiad ar gyfer ceisiadau i ddileu neu amrywio amod o dan adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yn yr un modd, nid oes gofyn paratoi Datganiad gyda cheisiadau am gymeradwyo materion sydd wedi'u cadw yn ôl, er bod y canllawiau'n cynghori y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd gyda cheisiadau o'r fath sy'n diweddarau unrhyw newidiadau ers i'r Datganiad gael ei ystyried fel rhan o'r cais cynllunio amlinell. Nid yw'r ymchwil wedi datgelu dim awydd mawr i weld gofynion y Datganiad yn cael eu hymestyn i ffurfiau eraill ar geisiadau nad oes gofyn paratoi Datganiad ar eu cyfer ar hyn o bryd, ac felly, argymhellir y dylid cadw at hyn.

Y Materion y Rhoddwyd Sylw Iddynt	Buddion a Ragwelir	Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd
Yn ystod yr ymchwil, gwelwyd bod gofynion paratoi Datganiadau'n orgymhleth ar gyfer rhai cynlluniau a bod y ffaith bod angen darparu dogfen sy'n ymdrin â'r un wybodaeth ar gyfer datblygiad 'bychan' iawn ag ar gyfer datblygiad 'mawr' yn peri	Byddai hyn yn cael gwared ar y baich o orfod darparu Datganiad ar gyfer y datblygiadau lleiaf, gan symleiddio proses gwneud cais cynllunio ar gyfer y datblygiadau hyn. Bydd gofyn paratoi Datganiad o hyd ar gyfer prosiectau mwy a	Ystyriwyd nifer o ddogfennau eraill y gellid eu defnyddio yn lle Datganiadau. Roedd hyn yn cynnwys ystyried dogfen materion technegol a fyddai'n rhoi sylw i fynediad. Un o'r ystyriaethau pwysicaf ynghylch cael gwared â gofynion y Datganiad ar gyfer rhai datblygiadau oedd bod angen sicrhau bod ystyriaethau ynghylch mynediad yn cael sylw, yn hytrach na'u bod yn mynd ar goll yn y broses gynllunio. Felly, ystyriwyd darparu dogfen a oedd yn dangos bod y materion hyn wedi cael

<p>rhwystredigaeth, sy'n golygu bod y Datganiadau'n llai effeithiol yn gyffredinol. Mewn ambell achos, bydd hyn yn ychwanegu costau diangen at y broses ymgeisio heb ychwanegu fawr ddim at y broses ddylunio neu benderfynu. Roedd 101 o blith 134 o bobl a atebodd yr holiadur yn cytuno bod lleoliadau penodol a mathau penodol o ddatblygu lle nad yw'n gwneud fawr o synnwyr gorfodi pobl i baratoi Datganiad.</p> <p>Serch hynny, gwelwyd bod y Datganiadau'n arf defnyddiol i gyfathrebu rhinweddau ac elfennau datblygiad arfaethedig.</p>	<p>rhai mwy cymhleth a'r rheini mewn ardaloedd sensitif (gweler argymhelliad 2) lle y gwelwyd bod manteision amlwg yn deillio o egluro'r datblygiad ar ffurf Datganiad.</p> <p>Mae angen ystyried yr argymhelliad hwn yng nghyd-destun yr argymhellion sy'n dilyn, oherwydd bydd materion sy'n ymwneud ag ystyriaethau mynediad yn cael sylw mewn argymhellion eraill.</p>	<p>sylw. Serch hynny, roedd y mater hwn yn cael sylw mewn ffyrdd eraill (gweler Argymhellion 5 a 6) sy'n golygu nad oes angen dogfen ychwanegol.</p> <p>Credid y byddai cyflwyno dogfen arall o dan deitl gwahanol yn cymhlethu ac yn drysu'r broses yn hytrach na'i gwneud yn fwy eglur. Byddai angen darparu canllawiau a hyfforddiant cwbl newydd er mwyn sicrhau bod y rheini a fyddai'n paratoi ac yn defnyddio'r ddogfen newydd yn deall ei chynnwys a'i phwrpas. Felly, y farn oedd y byddai'n fwy effeithiol diwygio sut y defnyddir dogfen y Datganiad presennol.</p> <p>Ystyriwyd defnyddio profforma neu ffurflen yn lle dogfen y Datganiad ar gyfer ceisiadau nad oes gofyn darparu Datganiad ar eu cyfer. Byddai hyn yn help i gyfeirio pobl at y prif faterion y mae angen rhoi sylw iddynt, yn annog pobl i'w defnyddio, a byddai o gymorth i'r rhai nad ydynt yn eu hysgrifennu'n aml. Fodd bynnag, gallai cyflwyno profforma greu system ddwy haen a allai beri dryswch ac</p>
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

		fe allai'r profforma gael ei hystyried yn rhy gyfyng i'r rheini sydd am ymhelaethu ar agweddau penodol o'r datblygiad. Dylid ystyried hyn yn opsiwn.
--	--	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Argymhelliad 2

Sefydlu'r trothwy priodol ar gyfer y ceisiadau y mae gofyn paratoi Datganiad ar eu cyfer.

Os caiff Argymhelliad 1 ei fabwysiadu, bydd angen sefydlu trothwy priodol ar gyfer darparu Datganiadau. Ystyriwyd nifer o opsiynau a bydd angen ystyried hyn eto ac ymgynghori er mwyn diffinio'r trothwy'n bendant ond dyma'r opsiwn a ffefrir ac a argymhellir.

Mae dau gategori i'r opsiwn hwn: ceisiadau y bydd yn orfodol cyflwyno Datganiad ar eu cyfer a cheisiadau lle na fydd hynny'n orfodol. Lle na fydd Datganiad yn orfodol, caiff pobl ddarparu un yn wirfoddol ond fe argymhellir hyn ar gyfer pob cynllun ar wahân i rai bychain iawn. Bydd canllawiau diwygiedig yn rhestru manteision darparu datganiad ac yn egluro mai dyma'r arfer gorau.

Ceisiadau lle y bydd yn dal yn **orfodol** cyflwyno Datganiad: datblygiadau o faint sy'n croesi trothwy a gydnabyddir mewn deddfwriaeth neu ymarfer cynllunio. Gellid seilio'r trothwy hwn ar y diffiniad cydnabyddedig o 'ddatblygiad mawr' (yn ôl diffiniad Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) 2012 h.y. cynigon ar gyfer 10 neu fwy o dai annedd (neu 0.5 ha os nad yw nifer yr unedau'n hysbys); datblygiad ag arwynebedd safle o 1 hectar neu ragor; ac adeilad neu adeiladau sy'n 1,00 m sg neu ragor). Bydd Datganiadau'n orfodol hefyd i geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig, a'r rheini mewn ardaloedd dynodedig ac eithrio cynigion datblygu nad ydynt yn creu gofod llawr ychwanegol megis

ailbeintio waliau allanol ac ati.

Ceisiadau lle na fydd yn **orfodol** cyflwyno Datganiad: Yr holl geisiadau nad ydynt yn ymwneud â'r datblygiadau a restrir uchod.

Y trothwy a gynigir yw 'datblygiad mawr' yn unol â diffiniad Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Cynigir y trothwy hwn oherwydd bod pobl yn gyfarwydd ag ef. Rydym yn argymhell y dylid ymgynghori er mwyn pennu trothwy priodol. Nid yw'r trothwy ar gyfer datblygiad mawr, a gwahaniaethu rhyngddo a datblygiad bach neu ffurfiau eraill ar ddatblygu, o anghenraid yn drothwy cwbl briodol ar gyfer penderfynu a oes angen paratoi Datganiad. Felly, byddai'n beth da petai'r Gorchymyn uchod yn darparu cyfres fwy manwl o raddfeydd neu fathau o ddatblygiad er mwyn sicrhau perthynas fwy priodol rhwng gofynion megis Datganiadau a maint y datblygiadau hyn. Wrth i amser fynd heibio, byddai'r gwahanol raddfeydd hyn - y tu hwnt i fawr, bach, perchnogion tai ac ati – yr un mor gyfarwydd i bobl gan ganiatáu fframwaith mwy manwl y gellid ei gysylltu â throthwyon neu a fyddai'n sbarduno'r gofyniad i baratoi Datganiad.

Y Materion y Rhoddwyd Sylw Iddynt	Buddion a Ragwelir	Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd
Mae hyn yn berthnasol i'r materion y mae Argymhelliad 1 yn ceisio mynd i'r afael â hwy.	Drwy wahaniaethu rhwng y ceisiadau hynny y bydd gofyn cael Datganiad ar eu cyfer, yn unol â'r argymhelliad, bydd pethau'n glir ac yn rhoi sicrwydd i ymgeiswyr oherwydd bod y drefn yn syml ac yn hawdd ei deall.	Ystyriwyd yr opsiwn o gael gwared â'r gofyniad i baratoi Datganiad ar gyfer pob cais, ond ni fwriwyd ymlaen â hynny Mae'r ymchwil wedi dangos, er mai ychydig o effaith y mae Datganiadau wedi'i chael ar wella ansawdd dylunio, bod gwerth iddynt o hyd, yn enwedig fel cyfrwng cyfathrebu. Roedd 41% o'r rhai a atebodd yr holiadur o blaid cael gwared â

	<p>Bydd galluogi ymgeiswyr i gyflwyno Datganiad ar sail argymhelliad / ar sail wirfoddol ar gyfer datblygiadau lle na fydd yn rhaid eu darparu bellach, yn cynnig cyfle o hyd iddynt esbonio a chyfiawnhau'r datblygiad. Bydd penseiri'n dal i allu esbonio ac egluro nodweddion y dyluniad, yn enwedig os yw'r cynllun yn un bach ond yn un radical.</p>	<p>Datganiadau'n llwyr ond roedd 107 o blith 120 (89%) yn cytuno bod y Datganiad yn arf defnyddiol yn y broses ddylunio a chynllunio. Mae hyn yn awgrymu parodrwydd ac awydd i weld Datganiadau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol yn y broses gynllunio.</p> <p>Ystyriwyd opsiwn arall ar gyfer y trothwy lle y byddai'n ofynnol darparu Datganiad. Mae'r opsiwn hwn yn rhestru tri chategori o geisiadau: y rheini lle mae'n dal yn orfodol cyflwyno Datganiad, y rheini lle mae cyflwyno Datganiad yn ddewisol ond nid yn orfodol (fel y'i disgrifiwyd yn yr argymhelliad hwn), a'r rheini lle y byddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael penderfynu a oedd angen Datganiad neu beidio ar sail amgylchiadau unigol y datblygiad.</p> <p>Y ceisiadau lle y penderfynid a fyddai angen Datganiad drwy gynnal trafodaethau cyn-ymgeisio gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol fyddai'r datblygiadau hynny sy'n disgyn rhwng y ddau drothwy arall.</p> <p>Mae'r opsiwn amgen hwn yn creu cymhlethdod ac</p>
--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

		ansicrwydd i'r ymgeisydd ac felly, nid dyma'r opsiwn a ffefir.
--	--	----------------------------------------------------------------

Argymhelliad 3

Eithrio o'r Gorchymyn agweddau penodol ar ddatblygiad y mae'n *rheid* eu hystyried yng nghyswllt dylunio (h.y. cynaliadwyedd amgylcheddol, mynediad, symudiad, diogelwch cymunedol a chymeriad.)

Dylid symleiddio'r is-ddeddfwriaeth i gadw'r gofyniad i esbonio sut mae cysyniadau ac egwyddorion dylunio wedi'u rhoi ar waith a sut y rhoddwyd sylw i ystyriaethau mynediad, ond dylid cyfeirio at y categorïau y dylid rhoi sylw iddynt yn y Datganiad mewn cyngor technegol yn hytrach nag mewn is-ddeddfwriaeth. Petai'r categorïau presennol y mae'n 'rheid' i Ddatganiad eu hesbonio ar hyn o bryd - cynaliadwyedd amgylcheddol, diogelwch cymunedol, ac ati - yn cael eu dileu o'r Gorchymyn, gellid rhoi sylw digonol iddynt fel categorïau yn y cyngor a ddarperir yn TAN 12. Fel dogfen gyngor, byddai TAN 12 yn gyfrwng addas i esbonio y dylid rhoi sylw i'r categorïau hyn lle bo hynny'n briodol i'r datblygiad dan sylw.

Y Materion y Rhoddwyd Iddynt	Buddion a Ragwelir	Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd
Mae'r ymchwil wedi dangos bod llawer o Ddatganiadau'n rhoi sylw i bob un o'r categorïau y mae'r Gorchymyn yn dweud ei bod yn rhaid eu	Bwriedir i'r newid hwn fynd i'r afael â dau fater, sef bod y Datganiadau'n cael eu gweld yn ymarfer ticio blychau a bod dogfennau'r	Ystyriwyd diwygio'r pum prif bennawd, sef mynediad, cymeriad, diogelwch cymunedol, cynaliadwyedd

<p>hesbonio, hyd yn oed pan nad oes materion penodol yn codi (yn aml er mwyn ymateb i ofynion dilysu). Canlyniad hyn yw bod deunydd hirfaith ond diangen weithiau'n cael ei gynnwys mewn Datganiad.</p> <p>Nid yw'r ymchwil wedi dangos bod y categorïau a ddefnyddir yn destun pryder, ond mae wedi dangos bod y rhai a atebodd yr holiadur yn eu dehongli yn nhrefn eu perthnasedd.</p> <p>Mae pobl yn deall y categorïau presennol yn dda a gallai eu dileu neu eu newid danseilio'r gwaith sydd wedi'i wneud i sefydlu'r egwyddorion hyn.</p>	<p>Datganiadau'n cynnwys gwybodaeth amherthnasol a diangen. Drwy drosglwyddo'r ystyriaethau dylunio a mynediad y gellir eu hystyried i gyngor a chanllawiau, bydd hynny'n lleihau'r ymdeimlad ei bod yn rhaid i bobl 'dicio blychau' dim ond at ddibenion dilysu. Drwy ail-eirio'r gofyniad deddfwriaethol presennol bod yn rhaid i Ddatganiad roi sylw i gategorïau penodol, a chynnwys mewn cyngor a chanllawiau y dylid rhoi sylw i'r categorïau hyn lle bônt yn berthnasol, hefyd yn golygu bod cynnwys y Datganiadau'n symlach ac yn fwy perthnasol.</p>	<p>amgylcheddol a symudiad y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt mewn Datganiad ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'r rhain bellach yn dermau sefydledig sydd wedi bwrw gwreiddiau yn TAN 12 ac nid dim ond gofynion ar gyfer y Datganiad yw'r rhain. Gallai eu hamrywio neu eu dileu achosi dryswch ac amharu ar y gwaith sydd wedi'i wneud eisoes i roi mwy o sylw i'r ystyriaethau dylunio hyn.</p>
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Argymhelliad 4

Diwygio a chyfuno'r canllawiau ynglŷn â Datganiadau Dylunio a Mynediad i greu un ddogfen a/neu gyfleuster ar y we.

Ni waeth a gaiff y gofynion ar gyfer Datganiadau eu diwygio fel y nodir yn yr argymhellion uchod neu beidio, awgrymir y dylid symleiddio'r canllawiau ynglŷn â Datganiadau er mwyn darparu un pwynt cyfeirio canolog sy'n cynnig gwybodaeth a chanllawiau

ynglŷn â datganiadau dylunio a mynediad. Gellid rhoi'r rhain ar wefan ryngweithiol benodol sy'n cael ei diweddarau ac sy'n hawdd ei defnyddio.

Dylai'r canllawiau fod yn gryno a dylent ddweud yn glir beth sy'n ddisgwyliedig, gan gynnwys:

- Pa geisiadau y mae'n rhaid darparu Datganiad ar eu cyfer
- Manteision darparu Datganiad ar gyfer amrywiol geisiadau lle nad yw hynny'n orfodol
- Cyfuno'r canllawiau ynglŷn â pharatoi Datganiad
- Enghreifftiau o Ddatganiadau ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau er mwyn cynnig canllawiau ynglŷn â'r hyn a ddisgwyllir
- Pa wybodaeth y dylid ei darparu am y cyd-destun, y safle a'r datblygiad arfaethedig.
- A ddylid rhoi sylw i bolisiâu cynllunio a sut (er mwyn osgoi ailddatgan polisiâu)
- Ei gwneud yn glir ei bod yn dderbyniol nodi bod penawdau rhai adrannau yn 'amherthnasol' os dyna yw'r sefyllfa.

Gallai Cyngor Dylunio Cymru ddarparu a diweddarau'r canllawiau hyn ar ran Llywodraeth Cymru er y byddai Llywodraeth Cymru yn adolygu'r canllawiau swyddogol, neu unrhyw newidiadau iddynt.

Y Materion y Rhoddwyd Sylw Iddynt	Buddion a Ragwelir	Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd
Yn ystod yr ymchwil, gwelwyd bod y canllawiau a ddarperir gan rai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn hen a bod y lluo o ddogfennau canllaw sydd ar gael yn gallu bod yn ddryslyd yn	Byddai cyfuno'r canllawiau yn help i greu mwy o gysondeb rhwng disgwyliadau Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r dogfennau a grëir. Drwy roi canllawiau clir ynghylch yr hyn sy'n	Er na fydd angen paratoi Datganiad ar gyfer cynifer o geisiadau, credir bod darparu canllawiau clir, diweddar a pherthnasol yn bwysig o hyd er mwyn sicrhau

<p>hytrach nag yn gymorth.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid yw cynnwys llawer o'r Datganiadau'n gymesur â maint neu â math y datblygiad a gynigir. Darperir llawer o wybodaeth ddiangen er mwyn sicrhau bod y Datganiad yn rhoi sylw i bob un o'r penawdau sydd yn TAN 12, ni waeth a yw'r rheini'n berthnasol neu beidio.</p> <p>Mae ffurf a chynnwys y Datganiadau a gyflwynir yn amrywio llawer ac yn anghyson. Ni fydd hyn yn gymaint o broblem os na fydd gofyn darparu Datganiad ar gyfer llawer o fathau o ddatblygiad. Ond, pan fydd gofyn eu darparu, mae'n bwysig eu bod yn cael eu paratoi a'u defnyddio yn y ffordd orau bosibl.</p>	<p>ofynnol a sicrhau cysondeb yn y gofynion, bydd hynny'n help i leihau ansicrwydd a gwneud darparu Datganiad yn llai o faich.</p>	<p>ansawdd a chynnig eglurdeb.</p>
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------

Argymhelliad 5

Lledaenu rhaglen hyfforddi a meithrin gallu drwy'r cyrff perthnasol, gan gynnwys cynnal cynadleddau, seminarau a chyhoeddi erthyglau.

Byddai rhaglen hyfforddi'n cynnwys diweddarau'r gofynion diwygiedig ar gyfer Datganiadau a'r newidiadau eraill sy'n gefn i hyn er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n eu hysgrifennu ac yn eu derbyn yn deall yn glir beth yw'r newidiadau a gynigir. Dylid ailbwysleisio'r dyhead i weld dylunio o ansawdd da yng Nghymru drwy gydol y broses hon.

Y Materion y Rhoddwyd Sylw Iddynt	Buddion a Ragwelir	Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd
<p>Mae cryn anghysondeb wrth ddilysu Datganiadau ar gyfer ceisiadau ac mae hyn yn achosi dryswch a rhwystredigaeth i ymgeiswyr.</p> <p>Wrth newid y gofynion, bydd angen i bawb eu deall yn glir.</p>	<p>Sicrhau bod y sawl sy'n ysgrifennu, yn derbyn ac yn defnyddio Datganiadau'n ymwybodol o'r newidiadau o ran y gofynion a'r canllawiau.</p> <p>Byddai hyfforddiant yn help i ddatrys rhai o'r arferion gwael sydd wedi datblygu wrth ysgrifennu Datganiadau, gan ailbwysleisio'u pwrpas.</p>	AMH

Argymhelliad 6

Integreiddio Rheoli Adeiladu yn ffynhonnell gyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â *mynediad* yn ystod cam y cais

cynllunio ar gyfer pob adeilad ar wahân i anheddau.

Dylid atgyfnerthu'r berthynas rhwng Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu ynghylch materion sy'n ymwneud â mynediad. Gall penderfyniadau yn ystod cam y cais cynllunio ddylanwadu ar y cam dylunio a rheoliadau adeiladu manwl. Dylid adolygu hyn er mwyn gweld sut y gellid cyflawni'r gwaith, gan gydnabod bod gwasanaethau rheoli adeiladu o bosibl yn cael eu darparu gan adran Rheoli Adeiladu Awdurdod Lleol neu gan Arolygwr Cymeradwy lle bydd un wedi cael ei gomisiynu'n fuan yn y broses. Byddai'r cynrychiolydd hwn yn cyngori ynghylch materion mynediad a fyddai'n effeithio ar ddyluniad cynnig a hynny mewn ffordd debyg i sut y bydd swyddogion cyswllt pensaernïol yr heddlu yn cynnig cyngor.

Un ffordd o wella'r ymgysylltu cynnar efallai fyddai integreiddio Rheoli Adeiladu fel ymgynghorai statudol. Gellid ymdrin â'r goblygiadau posibl o ran adnoddau i'r Awdurdod Lleol neu'r Arolygydd Cymeradwy drwy dalu ffi ychwanegol. Serch hynny, gellid gwneud iawn am y gost hon drwy leihau'r baich gwaith wrth greu Datganiad Dylunio a Mynediad gorfodol, ac osgoi ail-ddylunio, ail-weithio, ac o bosibl osgoi diwygiadau i ganiatâd cynllunio sydd wedi'i roi eisoes, sy'n codi yn sgîl newidiadau diweddarach. Dylai'r rhain i gyd olygu na fydd dim baich cost ychwanegol i'r ymgeisydd.

Y Materion y Rhoddwyd Sylw Iddynt	Buddion a Ragwelir	Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd
Yn ystod yr ymchwil gwelwyd nad yw mynediad yn ystyriaeth y rhoddir pwys mawr arno yn ystod cam y cais cynllunio. Wrth gael gwared â'r	Byddai'r newid hwn yn rhoi mwy o sylw i fynediad yn ystod cam y cais cynllunio. Mae'n sicrhau bod ystyriaethau ynghylch mynediad a chylchrediad yn cael eu gwneud adeg y cam	Y farn oedd y byddai cynnwys Rheoli Adeiladu yn ymgynghorai ar bob cais yn orfeichus. Felly, er mwyn sicrhau bod cyfraniad Rheoli Adeiladu mor

<p>gofyniad i baratoi Datganiad ar gyfer datblygiadau penodol, mae'n bwysig sicrhau na fydd ystyriaethau ynghylch mynediad a dylunio cynhwysol yn mynd ar goll yn ystod cam y cais cynllunio.</p>	<p>cynllunio er mwyn gallu rhoi sylw digonol iddynt adeg y cam rheoliadau adeiladu.</p> <p>Wrth gynnwys Rheoli Adeiladu yn ystod y broses Gynllunio, fe ddylai hynny gyflymu cymeradwyaethau dilynol gan Reoliadau Adeiladu drwy weld problemau dylunio'n fuan y byddai fel arall angen rhoi sylw iddynt yn ddiweddarach. Bydd hyn yn lleihau cost ail-ddylunio, ail-weithio a chyflwyno ceisiadau ar gyfer diwygio caniatadau Cynllunio sydd wedi'u rhoi eisoes.</p>	<p>effeithiol ag y bo modd, cynigir sefydlu trothwy lle na fyddai ond yn cyfrannu wrth drafod ceisiadau am ddatblygiadau nad ydynt yn dai.</p>
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Argymhelliad 7

Ehangu Rhan M Rheoliadau Adeiladu i gynnwys *pob* ardal allanol sydd o fewn ffin y datblygiad.

A chofio na fydd gofyn darparu Datganiad ar gyfer rhai ceisiadau bellach (gweler Argymhelliad 1), er mwyn helpu i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gydraddoldeb mynediad ym mhob ardal allanol, argymhellir y dylid ehangu cwmpas Rhan M. Ar hyn o bryd, mae llwybrau o ffin y safle at brif fynedfeydd wedi'u cynnwys ond er mwyn sicrhau bod sylw'n cael ei roi i fynediad hygyrch i bob rhan o'r safle, argymhellir y dylid ehangu cwmpas y rhan hon o'r rheoliadau.

Y Materion y Rhoddwyd Sylw Iddynt	Buddion a Ragwelir	Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd
<p>Gall problemau mynediad sy'n gysylltiedig ag ardaloedd allanol nad ydynt yn cael eu hystyried tan gam y Rheoliadau Adeiladu arwain at ddylunio gwael neu amhriodol y mae'n anodd ei ddatrys drwy ddulliau technegol. Fe all hyn olygu baich ariannol ychwanegol.</p> <p>Wrth gynnig y newidiadau i ofynion y Datganiad, mae'n bwysig peidio ag anghofio ystyriaethau ynghylch mynediad i'r safle yn ei gyfanrwydd.</p>	<p>Byddai'r diwygiad bach hwn yn help i sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynglŷn golwg allanol datblygiad (a sut mae hynny'n rhyngweithio â'r cynllun mewnol h.y. ymhle mae'r mynedfeydd), lleoliad, lefel a gorweddiad yr adeiladau a dyluniad yr ardaloedd allanol yn sicrhau mynediad cynhwysol.</p>	<p>AMH</p>

Argymhelliad 8

Parhau i hyrwyddo cyfarfodydd cyn-ymgeisio effeithiol i sicrhau gwell dylunio ac i ystyried materion sy'n ymwneud â mynediad.

Er mwyn cefnogi'r newidiadau i'r gofyniad i baratoi Datganiadau, dylid ail-bwysleisio pwysigrwydd cyfarfodydd cyn-ymgeisio drwy gyhoeddi deunyddiau a thrwy ddarparu adnoddau ar gyfer

Awdurdodau Cynllunio Lleol.		
Y Materion y Rhoddwyd Sylw Iddynt	Buddion a Ragwelir	Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd
<p>Un o fanteision Datganiad, fel y dywedir yn TAN 12 yw y dylai fod yn sail i benderfyniadau o'r cychwyn drwy'r camau cyn-ymgeisio/ymgeisio nes rhoi'r cynllun ar waith ar y safle. Serch hynny, mae'r ymchwil yn dangos mai anaml y defnyddir Datganiad yn y cam cyn-ymgeisio.</p> <p>Fodd bynnag, roedd yr ymchwil yn dangos y gall cyfarfodydd cyn-ymgeisio gyfrannu at well dylunio.</p> <p>Gwelwyd bod ansawdd Datganiad yn gyffredinol yn adlewyrchu ansawdd cyfarfodydd cyn-ymgeisio yn hytrach na'u bod yn dylanwadu arnynt.</p>	<p>Bydd problemau dylunio a mynediad yn cael eu gweld yn gynharach yn y broses, a gellir rhoi sylw iddynt yn ystod y camau dylunio, yn hytrach na pha fydd y cais cynllunio wedi'i gyflwyno.</p> <p>Gellir defnyddio'r cyfarfod cyn-ymgeisio hefyd i sefydlu a fyddai'r cais ar ei elw o gael Datganiad, os nad oes yn rhaid darparu un.</p>	<p>Ystyriwyd proses cofrestru cyn-ymgeisio fwy ffurfiol a fyddai'n rhoi gwybod i reoli datblygu ac ymgylgoreion statudol am geisiadau sydd ar y gweill. Fodd bynnag, byddai hyn yn ychwanegu rhagor o weithdrefnau at y broses ymgeisio a'r farn oedd y byddai'n orfeichus.</p>

Argymhelliad 9

Cadw a datblygu mecanweithiau eraill i wella ansawdd y dylunio.

Yn ystod yr ymchwil, gwelwyd nad yw defnyddio Datganiadau, gan amlaf, wedi arwain at well dylunio. Felly, dylid ystyried mecanweithiau eraill i hyrwyddo dylunio da. Nodwyd bod rhai o'r arfau dylunio ymyrryd rhagweithiol hyn yn dylanwadu er gwell ar y dylunio:

- Polisïau lleol
- Annog cael o leiaf un gweithiwr proffesiynol sydd â chymhwyster dylunio ym mhob awdurdod cynllunio yng Nghymru
- Uwchgynlluniau/ codau dylunio
- Briffiau datblygu
- Defnyddio cyfarfodydd cyn-ymgeisio (fel y'u disgrifir uchod)
- Hyfforddiant ac addysg ym maes dylunio
- Adolygu dyluniadau

Y Materion y Rhoddwyd Sylw Iddynt	Buddion a Ragwelir	Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd
<p>Mae'r ymchwil wedi dangos nad yw'r gofyniad i ddarparu Datganiad wedi cael dylanwad amlwg yn y rhan fwyaf o achosion ar ansawdd y dylunio.</p> <p>Nid yw datganiadau dylunio a mynediad wedi darparu mecanwaith i wella'r dyluniad drwy'r</p>	<p>Er na fydd gofyn paratoi Datganiad ar gyfer cynifer o geisiadau, bydd yn ddoeth sicrhau bod egwyddorion dylunio da, egwyddorion y mae mwy o bobl yn eu deall bellach, yn dal i fwrw gwreiddiau yn y broses gynllunio.</p> <p>Dylid dal i ddefnyddio mecanweithiau eraill i</p>	<p>AMH</p>

system gynllunio.	feithrin sgiliau a gwybodaeth y rhai sy'n ymwneud â'r broses gynllunio a dylunio.	
-------------------	-----------------------------------------------------------------------------------	--

Argymhelliad 10

Annog defnyddio amodau cynllunio i sicrhau, lle bo hynny'n berthnasol, fod prif elfennau'r Datganiadau'n cael eu gwireddu.

Mae angen sicrhau bod cynigion sydd yn y Datganiad (lle bydd Datganiad yn ofynnol) yn cael sylw priodol a chymesur yn y datblygiad a gaiff ei adeiladu.

Bydd elfennau Datganiad sy'n bwysig neu'n berthnasol wrth roi caniatâd cynllunio'n amrywio gyda phob datblygiad, a dibynnu ar ystyriaethau penodol y cynigion (megis ffurf y datblygiad, ystyriaethau cynllunio, effaith, sensitifrwydd y safle ac ati). Dylid annog Awdurdodau Cynllunio Lleol felly i roi amod(au) ar waith i sicrhau bod pa elfennau bynnag o'r Datganiad sy'n berthnasol wrth roi'r caniatâd cynllunio'n cael eu dilyn drwodd nes bod y datblygiad wedi'i gwblhau.

Mae angen i amod o'r fath fod yn hyblyg er mwyn sicrhau nad yw ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y meysydd hanfodol / perthnasol hynny. Mewn caniatâd amlinell, er enghraifft, fe ellid gosod amod bod materion a gadwyd yn ôl yn cael eu cyflwyno'n unol â'r egwyddorion dylunio sydd ym Mhennod X o'r Datganiad, ond, ar gyfer caniatâd llawn, efallai y byddai'n briodol mynnu, dyweder, bod y deunyddiau (i'w cyflwyno i'w cymeradwyo cyn eu defnyddio) yn unol â'r atodlen deunyddiau a restrir ym Mhennod Y o'r Datganiad.

Gallai ffurf yr amod fod mor syml â hyn: Cymeradwyir y datblygiad drwy hyn i'w gyflawni'n unol ag [egwyddorion dylunio / trefniant mynediad /paled deunyddiau, et al] fel y'u nodir o dan [Pennod /

Adran / paragraff / ffigur et al] o'r Datganiad Dylunio a Mynediad [cyf] a gyflwynwyd ar [dyddiad].		
Y Materion y Rhoddwyd Sylw Iddynt	Buddion a Ragwelir	Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd
<p>Yn ystod yr ymchwil, gwelwyd mewn rhai achosion, nad yw'r egwyddorion a restrir yn y Datganiad bob tro'n cael eu gwireddu.</p> <p>Oherwydd nad yw'r Datganiad yn rhan o'r cais cynllunio, nid oes modd gorfodi'r hyn sydd wedi'i gynnwys ynddo.</p>	<p>Drwy ddefnyddio amodau, bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu sicrhau bod modd gorfodi'r egwyddorion a'r cynigion penodol a restrir yn y Datganiad.</p>	<p>AMH</p>

7.2 Casgliadau

Yn dilyn y gwaith ymchwil drwy gyfrwng yr holiadur, y gweithdy a'r astudiaethau achos, a chanfyddiadau'r adolygiad o'r llenyddiaeth yn gefn i hynny, lluniwyd casgliadau ynghylch effeithiolrwydd Datganiadau Dylunio a Mynediad fel y'u rhestrir yn Adran 6. Cyflwynwyd nifer o argymhellion er mwyn ymateb i'r canfyddiadau hyn gan geisio datrys y prif anawsterau a mireinio pwrpas a chwmpas y Datganiadau.

Mae'r argymhellion yn cynnwys newid y **gofynion** ar gyfer Datganiadau, gan leihau nifer y ceisiadau y bydd gofyn paratoi Datganiad ar eu cyfer, ond gan eu cadw'n gyfrwng cyfathrebu ar gyfer datblygiadau mwy arwyddocaol. Bydd hyn yn help i fynd i'r afael â'r agwedd negyddol sydd gan bobl at y broses bresennol. Bydd gwell **canllawiau a hyfforddiant newydd** o gymorth gyda'r newidiadau i'r gofynion ar gyfer Datganiadau. Bydd ystyriaethau ynghylch mynediad yn dal i gael sylw drwy gynnwys **Rheoli Adeiladu** yn gynharach yn y broses a thrwy'r newidiadau a gynigir i'r **Rheoliadau Adeiladu**. Bydd angen defnyddio mecanweithiau eraill i fynd i'r afael â gwendid y Datganiadau ar hyn o bryd o ran gwella dylunio.

Rhagwelir mai budd rhoi'r argymhellion hyn ar waith yw bydd y Datganiadau'n cael eu defnyddio mewn ffordd fwy clir a phenodol ac felly y byddant yn fwy gwerthfawr i'r system gynllunio. Rhoddir mecanweithiau eraill ar waith i sicrhau bod dylunio a mynediad yn dal yn ystyriaethau o bwys yn y broses gynllunio.

Mae'r gydberthynas rhwng yr argymhellion yn ei gwneud yn ofynnol eu hystyried a bwrw ymlaen â hwy mewn ffordd gydlynol. Un peth sydd o ddiddordeb penodol yw y dylai'r mesurau a nodir yng nghyswllt Rheoli Adeiladu a newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu fod yn gefn i'r newidiadau i'r gofynion ar gyfer y Datganiadau er mwyn sicrhau bod mynediad yn cael sylw dyledus.